Cynllun y Cyngor - Rhan 2

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

"Pennu ein Targedau"
2011 to 2012

2 Pennu ein Targedau

Tudalen Fynegai

Croeso i Gynllun ein Cyngor 4
Rhagair yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr 6
Ein Blaenoriaethau 2009 i 2012 7
Ein Targedau 2011 i 2012 8
Terminoleg 8
Blaenoriaethau'r Cyngor 9
Tai Fforddiadwy 9
Gwell Addysg a Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth 11
Lleihau Allyriadau Carbon a Defnyddio Llai o Ynni 13
Blaenoriaethau Gwella 16
Mynediad at Wasanaethau a Gwrando ar y Cyhoedd a'u Cael i Ddylanwadu ar Wasanaethau 16
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Camddefnyddio Sylweddau ac Amgyffred o Drosedd 18
Cynorthwyo Pobl Hyn i Fyw yn Annibynnol 19
Bwyta'n Iach a Phobl yn Bod yn Fwy Egnïol 22
Lleihau Gwastraff i'r Eithaf ac Ailgylchu 27
Hyrwyddo Cyfle Cyfartal i Blant a Phobl Ifanc ddod yn Ddwyieithog a Hyrwyddo Diwylliant Cymru 29
Diogelu ein Plant 31
Blaenoriaethau Gwella Gwasanaethau 34
Rhaglen Drawsffurfio 34
Rhaglen Wella 34
Cytundebau Canlyniadau 35
Fframwaith Mesur Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru 36
Dangosyddion Perfformiad 2011-12 36
Pennu ein Targedau 44
Y Broses Gynllunio Gwasanaethau ac Arfarniadau Blynyddol 44
Deddfwriaeth Newydd yn 2009 44
Cylch Cynllunio Corfforaethol a Chylch Cynllunio'r Gyllideb 44
Adborth gan Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiad Gwella Blynyddol 44
Y Broses Gynllunio Gwasanaethau ac Arfarniadau Blynyddol 44
Gwelliannau i'r Broses Cynllunio Gwasanaethau 45
Blaenoriaethau'r Cyngor o 2012 ymlaen 46
Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella 47
Datganiad Cyfrifoldeb 47

Mae'r ddogfen hon i'w chael ar gais ar amrywiaeth o ffurfiau hygyrch gan gynnwys print bras, Braille, DVD BSL, CD sain, tâp sain neu ddisg gyfrifiadurol.

Gall fod ar gael hefyd ar ffurf hawdd ei darllen ac mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg.

Gofynnwch am fanylion.

Ymateb
Rydym yn croesawu eich sylwadau ar Gynllun ein Cyngor. Anfonwch unrhyw sylwadau neu geisiadau am y ddogfen ar ffurfiau hygyrch eraill i'r:

Uned Perfformiad a Gwelliant,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam,
Stryt y Lampint,
Wrecsam,
LL11 1AY

E-bost: statistics@wrexham.gov.uk
Ffôn: 01978 292271

CYHOEDDWYD MEHEFIN 2011

4 Pennu ein Targedau

Croeso i Gynllun ein Cyngor

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyflenwi gwasanaethau i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r Fwrdeistref Sirol. Mae ein gwasanaethau'n cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau a gallwch ddod i gysylltiad â'n gwasanaethau heb hyd yn oed sylweddoli hynny.

Enghreifftiau o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gennym yw cadw'r strydoedd yn lân a thaclus, casglu gwastraff o gartrefi a busnesau, rhoi cefnogaeth a chyngor i fusnesau, mannau chwarae a pharciau gwledig, ysgolion, llyfrgelloedd, clybiau ieuenctid, canolfannau hamdden, cymorth gofal cymdeithasol i bobl gan gynnwys yr henoed a phlant, casglu treth y cyngor a thalu budd-daliadau tai, tai cyngor, gwasanaethau'r cofrestrydd, rhoi cyngor ym maes cynllunio a gorfodi'r rheolau, meysydd parcio, cynnal ffyrdd a gweithgareddau diogelwch ar y ffyrdd.

Rhannwyd Cynllun ein Cyngor yn dair dogfen fydd, gyda'i gilydd, yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i chi ar ein perfformiad, gan edrych ymlaen at y pethau yr ydym yn bwriadu eu cyflawni ac yn ôl at yr hyn a gyflawnwyd gennym eisoes. Drwy'r holl ddogfennau bydd 'arwyddbyst' at wybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol hefyd. Mae fersiynau cryno o'r dogfennau i'w cael hefyd.

Dogfennau Cynllun y Cyngor



Diffinio ein Cyfeiriad 2009 to 2012

blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2009 i 2012 a'r weledigaeth ehangach o Strategaeth Gymunedol Wrecsam. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut y nodwyd ein blaenoriaethau a chrynodeb o wybodaeth am berfformiad a phethau eraill a ddylanwadodd ar ein penderfyniadau. Daw i ben trwy amlinellu'r broses a ddilynwn i gynllunio a gwella ein gwasanaethau a'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r gwaith hwn.

Pennu ein Targedau (sy'n cael ei chynhyrchu bob blwyddyn ym mis Mehefin)

Mae hon yn rhoi gwybodaeth ar y targedau a bennwyd gennym i ni ein hunain eu cyflawni wrth inni symud tuag at gyflawni'r gwelliannau a fynnwn am y flwyddyn gyfredol (e.e. rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012). Mae'n cynnwys gwybodaeth am y broses a ddilynwn i wneud hyn a'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r gwaith hwn.

Canolbwyntio ar ein Perfformiad (sy'n cael ei chynhyrchu bob blwyddyn ym mis Hydref)

Mae hon yn rhoi gwybodaeth am sut y gwnaethom yn y flwyddyn flaenorol gyferbyn â'r targedau a bennwyd gennym (e.e. rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2011), sut mae ein perfformiad yn cymharu ag eraill, yr hyn a welsom wrth adolygu ein gwasanaethau ac wrth ofyn i bobl am eu barn a sut rydym wedi defnyddio'r holl wybodaeth. Mae hefyd yn amlinellu'r broses a ddilynwn i gynllunio, arolygu a gwerthuso ein gwasanaethau a'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r gwaith hwn.

Y ddogfen hon yw: Pennu ein Targedau 2011 i 2012

6 Pennu ein Targedau

Rhagair yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr

Mae Cynllun y Cyngor yn nodi sut fydd y Cyngor hwn yn perfformio ac yn cyflenwi gwasanaethau'n well. Ymhob un o'r tair dogfen sy'n ffurfio'r cynllun, rydym yn amlinellu ymrwymiadau ein gweledigaeth yn y tymor canolig, y targedau a bennwyd gennym am y flwyddyn i ddod a hefyd yn rhoi adroddiad ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Ein meysydd blaenoriaethol, a nodwyd yn 2009, fydd yn ein gyrru unwaith eto dros y flwyddyn i ddod. Rydym hefyd yn ymwybodol bod yr agenda yn y sector cyhoeddus yn dal i gael ei dominyddu gan gyllidebau tynnach ac arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd presennol. Rydym felly wedi cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r gostyngiadau gwariant sy'n cael eu rhagweld dros y blynyddoedd nesaf drwy gyflwyno'n Rhaglen Drawsffurfio.

Bydd heriau newydd yn wynebu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bob amser ac, er mwyn ymateb i'r heriau hynny, bydd angen i'r Aelodau a'r Swyddogion gyfranogi'n llawn i'n galluogi i weithio o fewn terfynau newydd, wrth ymdrechu i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i bobl y Fwrdeistref Sirol.

Yn 2010/11 parhaodd ein lefelau perfformiad uchel, gan ddal i adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd cynt, yn enwedig yn ein meysydd blaenoriaethol. Ein dymuniad yw dal i wella o un flwyddyn i'r llall ac, felly, yn 2011/12, rydym unwaith eto wedi pennu targedau ymestynnol a heriol i ni ein hunain. Mae'r ddogfen hon, Rhan 2 o Gynllun y Cyngor, yn rhoi gwybodaeth am y targedau a bennwyd drwy'r Cyngor i gyd.

Bydd gwaith ymroddedig yr adrannau ynghyd â chefnogaeth yr Aelodau a chydweithio parhaus gyda chydweithwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn help inni oresgyn yr amseroedd dyrys ac anodd sydd o'n blaenau, gan ddal i gyflenwi gwasanaethau'n well.

Lee Robinson
Prif Weithredwr Dros Dro

Cllr Aled Roberts
Arweinydd y Cyngor

Ein Blaenoriaethau 2009 i 2012

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn llwyddiannus wrth ganolbwyntio ar wella gwasanaethau ac mae wedi cael enw da am arloesi a bod yn ddarbodus yn ariannol. Yn 2009 nodwyd tair Blaenoriaeth Cyngor gennym ac wyth o feysydd Gwella Blaenoriaethol lle'r oeddem eisiau canolbwyntio ein sylw er mwyn gwella'n sylweddol rhwng 2009 a 2012.

Yn gryno, mae ein blaenoriaethau'n dal i fod fel a ganlyn:

Blaenoriaethau'r Cyngor

- Tai fforddiadwy
- Gwell addysg a sgiliau ar gyfer cyflogaeth
- Lleihau allyriadau carbon a defnyddio llai o ynni

Blaenoriaethau Gwella

- Bwyta'n iach a phobl yn bod yn fwy egnïol
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau ac amgyffred o drosedd
- Cynorthwyo pobl hyn i fyw yn annibynnol
- Lleihau gwastraff i'r eithaf ac ailgylchu
- Mynediad at wasanaethau a gwrando ar y cyhoedd a'u cael i ddylanwadu ar wasanaethau
- Hyrwyddo cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc ddod yn ddwyieithog a hyrwyddo diwylliant Cymru
- Rhaglen Drawsffurfio (Datblygu Sefydliadol gynt)
- Diogelu ein plant

Ochr yn ochr â Blaenoriaethau a meysydd Gwella Blaenoriaethol ein Cyngor ar gyfer 2011/12, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi dechrau ar Raglen Drawsffurfio i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod mewn sefyllfa i orfodi arbedion effeithlonrwydd. Mae hyn er gwaethaf y pwysau parhaol sy'n gysylltiedig â chyllidebau tynnach a'r gostyngiadau gwariant sy'n cael eu rhagweld dros y blynyddoedd nesaf.

Erbyn hyn mae gennym raglen fanwl o waith a fydd yn ceisio sicrhau dros y pedair i bum mlynedd nesaf bod ein gwasanaethau mor effeithiol â phosib, yn addas ar gyfer y dyfodol, yn parhau i fod o fudd i'n trigolion ac yn fforddiadwy i'r Cyngor. Er mwyn ymgymryd â'r fath drawsnewidiad sylweddol i greu dyfodol cynaliadwy, rydym wedi datblygu dull trylwyr o reoli themâu, cyfleoedd a rhyngwynebau gwleidyddol a lleihau'r risg na fyddwn yn gallu cadw at ein cyllidebau.

8 Pennu ein Targedau

Efallai felly y bydd datblygu a gweithredu ein hagenda drawsffurfio yn parhau i effeithio ar ein gallu i gyflawni canlyniadau penodol mewn perthynas â Blaenoriaethau Cyngor a'r Blaenoriaethau Gwella.

Mae gwybodaeth gyffredinol ynglyn â'n gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau, sut maent yn cysylltu â'r Strategaeth Gymunedol a sut y penderfynwyd arnynt, i'w chael yn nogfen Cynllun y Cyngor o'r enw 'Diffinio ein Cyfeiriad'.

Ein Targedau 2011 i 2012

Wrth symud tuag at ddarparu gwelliannau yn ein meysydd blaenoriaeth rydym wedi nodi ystod o dargedau a chamau gweithredu yr ydym yn dymuno eu cyflawni yn ystod 2011/12. Mae sut yr ydym yn pennu ein targedau yn cael ei ddisgrifio yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Yn aml bydd cyflawni ein blaenoriaethau'n golygu bod gofyn i nifer o adrannau gydweithio ac, er mwyn cydlynu'r gwaith hwn yn effeithiol, mae gan bob blaenoriaeth Gyfarwyddwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cyflawni. Mae manylion pwy ydynt, ynghyd â rhagor o wybodaeth am y blaenoriaethau a'n targedau a'n camau gweithredu arfaethedig, yn cael eu dangos ar y tudalennau dilynol. Caiff Aelodau Arweiniol eu neilltuo hefyd i weithredu fel hyrwyddwyr meysydd blaenoriaethol. Penodwyd yr Aelodau Arweiniol canlynol yn 2008/09 i gefnogi cyflawni ein blaenoriaethau:

- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
  Y Cynghorydd Joan Lowe
- Cymunedau a Pherfformiad
  Y Cynghorydd Bob Dutton OBE
- Tai a Chynllunio
  Y Cynghorydd Mark Pritchard
- Yr Amgylchedd a Chludiant
  Y Cynghorydd David Bithell
- Cyllid a Rheoli Asedau
  Y Cynghorydd Alun Jenkins
- Regeneration and Corporate Governance
  Councillor Rodney Skelland
- Adfywio a Llywodraethu Corfforaethol
  Y Cynghorydd Rodney Skelland
- Arweiniad Corfforaethol a Phlant (Ysgolion a Diogelu)
  Y Cynghorydd Aled Roberts
- Plant (Dysgu Ychwanegol, Teuluoedd a Chefnogaeth)
  Y Cynghorydd Arfon Jones

Terminoleg

Canlyniadau:

Mae canlyniad yn golygu fod gweithredu yn dod â lles i blant, oedolion, teuluoedd neu gymunedau. Mae'n golygu lles i'r boblogaeth darged neu'r grwp o ddefnyddwyr gwasanaethau a ddewiswyd.

Mesurau Perfformiad:

Mae mesurau perfformiad yn cael eu defnyddio i werthuso pa mor dda yr ydym ni'n ei wneud yn erbyn y canlyniadau yr ydym yn anelu tuag atynt.

Camau gweithredu:

Mae camau gweithredu yn weithgaredd y cytunwyd arno a wneir er mwyn cyflawni'r canlyniadau yr ydym yn anelu tuag atynt. Mae gan weithredoedd gerrig milltir clir, penodol a hawdd eu hadnabod.

Blaenoriaethau'r Cyngor

Dyma'r nifer bach o feysydd â ffocws pendant iawn lle byddwn yn gwneud newid sylweddol dros y tair blynedd nesaf.

Tai Fforddiadwy

Swyddog Atebol: Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles / Datblygu Cynaliadwy

Mae Tai Fforddiadwy ar gyfer pobl nad yw eu hincwm yn eu galluogi i brynu neu rentu eiddo addas i'w hanghenion ar y farchnad agored. Maent yn dai â chymhorthdal, am bris llai na phris y farchnad ac yn cael eu dal am byth.

Mae asesiadau anghenion tai wedi nodi diffyg tai fforddiadwy ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, mae anawsterau wrth sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy oherwydd:

- Lleihad yn y cyfalaf sydd ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad (Grant Tai Cymdeithasol) dros y tair blynedd nesaf
- Mae'r tai fforddiadwy sy'n cael eu darparu drwy ofynion cynllunio ad106 wedi lleihau'n sylweddol oherwydd y dirywiad yn y farchnad dai
- Llai o dai cyngor ar gael (o achos yr hawl i brynu a llai o newid yn y tenantiaethau)
- Cynnydd yng ngwerth eiddo ac argaeledd morgeisi

Diben cyffredinol y flaenoriaeth hon yw gweithio tuag at sicrhau bod digon o dai fforddiadwy yn y Fwrdeistref Sirol, drwy geisio darparu rhagor o dai fforddiadwy (2009-2012) a sefydlu peirianwaith i helpu i ddiwallu anghenion tymor hwy.

Rydym yn cymryd amrywiaeth o gamau gweithredu yn 2011/12 er mwyn symud tuag at gyflawni'r flaenoriaeth hon. Y pennaf o'r rhain yw'r Prosiect Tai Fforddiadwy a ddechreuwyd yn ystod 2010/11 ac a fydd yn parhau yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae'r prosiect yn anelu at ddarparu nifer sylweddol o unedau tai fforddiadwy ychwanegol ar draws ystod o safleoedd sy'n eiddo i'r Fwrdeistref Sirol, lle mae caniatâd cynllunio amlinellol wedi cael ei sicrhau yn ystod 2010, a gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad ar y safleoedd y maent wedi cytuno arnynt i'w cynnwys yn y prosiect. Yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol byddwn yn bwrw ymlaen â'r datblygu fesul cam ac rydym yn rhagweld y byddwn yn gwahodd

10 Pennu ein Targedau

datganiadau o ddiddordeb, yn creu rhestr fer ac yn dewis partner ar gyfer y datblygu erbyn diwedd 2011, gyda'r nod o ddechrau datblygu Cam 1 y prosiect yn hwyr yn 2012. O 2011 bydd awdurdodau lleol yn dod yn gyfrifol am flaenoriaethu cynlluniau Grant Tai Cymdeithasol a monitro gwariant RSL a bydd rhaid inni ystyried yn ofalus a ddylai'n dyraniad ni gael ei ddefnyddio i gefnogi gwireddu'r Prosiect Tai Fforddiadwy yn llwyr neu a ddylid cwmpasu blaenoriaethau eraill hefyd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi lleihad o 65% yn arian y Grant Tai Cymdeithasol dros y tair blynedd nesaf felly bydd rhaid inni ymchwilio i ffyrdd eraill o ddarparu tai fforddiadwy. Yn gyntaf byddwn yn asesu hyfywedd datblygu cynllun prydlesu sector preifat fel bod modd defnyddio adnoddau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y sector rhentu preifat. Yn ail byddwn yn gweithio gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) sy'n bartneriaid inni i ddatblygu cynllun peilot adfywio eiddo gwag gyda phwyslais arbennig ar weithio gyda'n Swyddog Galluogi Tai Gwledig i ddarparu mwy o dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig. Yn olaf byddwn yn gweithio gydag RSL penodedig i ddatblygu cynllun perchnogaeth cartref fforddiadwy ar gyfer pobl sy'n anabl yn gorfforol ond a allai symud i fyw'n annibynnol drwy ddod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain.

Beth yw'r canlyniad yr ydym ni eisiau ei gyflawni?

To increase the provision of affordable housing over the next three years and to put mechanisms in place to help meet the identified need for affordable housing up to 2021.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi ei gyflawni:

Mesur Perfformiad	Alldro 2009/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
Nifer o unedau tai fforddiadwy a gyflenwir	Ddim ar gael	176	140-150

Y camau gweithredu allweddol i'n helpu i wneud hyn yw:

Camau Gweithredu 2011/2012	Cerrig Milltir
Sicrhau bod datblygiad gofal ychwanegol yn cwrdd â thargedau cerrig milltir prosiect allweddol	Ch3 – cwblhau contractau datblygu Ch4 – Meddiannaeth gyntaf o'r unedau
Mewn cydweithrediad a'r Rheolwr Prosiect gweithio gyda Rheoli Asedau i ddrafftio telerau dogfen Menter ar y Cyd gyda'r datblygwr/RSL dewisedig.	Cytundeb Menter ar y Cyd gyda'r datblygwr wedi'i gwblhau

Bydd y perfformiad yn erbyn y Flaenoriaeth Cyngor hon yn 2010/11 yn cael ei gyflwyno yn Rhan 3 o Gynllun y Cyngor 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad', a fydd yn cael ei gynhyrchu ym mis Hydref 2011.

Gwell Addysg a Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth

Swyddog Atebol: Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Plant a Phobl Ifanc / Dysgu Gydol Oes

Nodwyd y flaenoriaeth hon yn 2009 i helpu pobl i ddatblygu'r addysg a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn llwyddiannus wrth chwilio am gyflogaeth. Y targed oedd lleihau'r ganran o bobl 16 mlwydd oed sy'n gadael ysgol bob blwyddyn nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET). Nodwyd y targed hwn oherwydd ein bod yn gwybod bod bron un ym mhob deg person ifanc oedd yn gadael Blwyddyn 11 yn 2008 heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.

Dros y ddwy flynedd y bu Blaenoriaeth y Cyngor yn weithredol mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud yn y nifer a'r gyfran o bobl sy'n gadael ysgol sydd yn mynd ymlaen i fod yn NEET:

- Mae'r nifer a'r gyfran o bobl ifanc sy'n gadael blynyddoedd 11, 12 a 13 ac yn mynd ymlaen i fod yn NEET wedi gostwng (gwella) yn sylweddol ac maent i gyd yn well na chyfartaledd Cymru.
- Syrthiodd y gyfran o ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n mynd ymlaen i fod yn NEET o 145 (9.6%) yn 2008 i 57 (4.2%) yn 2010.
- Mae'r gyfran o bobl ifanc Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n gadael Blwyddyn 11 ac yn parhau mewn addysg lawn amser wedi cynyddu o 7.1%, er bod hyn yn dal yn is na chyfartaledd Cymru.

Yn dilyn gostyngiad pellach yn 2010, cydnabu Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal ag Estyn – Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru – y cynnydd sydd wedi ei wneud ond gan dynnu sylw at yr angen i ehangu cwmpas y flaenoriaeth.

12 Pennu ein Targedau

Beth yw'r canlyniad yr ydym ni eisiau ei gyflawni?

Bydd y flaenoriaeth yn parhau ar waith i gynnal y gostyngiad a gyflawnwyd o ran pobl ifanc yn gadael yr ysgol bob blwyddyn a heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth. Mae'r ffocws hefyd yn cael ei ehangu i adlewyrchu'r blaenoriaethau addysgiadol a nodwyd yn y Cydgynllun.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi ei gyflawni?

Byddwn yn parhau i fonitro'r gyfran o bobl ifanc yn gadael Blwyddyn 11 yr ydym yn gwybod nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (NEET).

Mae mesurau ac amcanion eraill ar gyfer y blaenoriaethau addysgiadol o fewn y Cydgynllun yn cael eu datblygu mewn ymateb i'r adroddiad diweddar gan Estyn. Mae'r Cynllun Gweithredu Ôl Arolygiad yn rhwymo'r awdurdod i adolygu blaenoriaeth Addysg gyfredol y Cyngor a chytuno ar ystod ehangach o flaenoriaethau Cyngor i'r gwasanaethau addysg. Rhaid i'r rhain fod yn eu lle erbyn mis Medi, mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Y camau gweithredu allweddol i'n helpu i wneud hyn yw:

Byddwn yn parhau i wella'r dulliau yr ydym yn eu defnyddio i dargedu cymorth ac ymyrraeth tuag at y bobl ifanc hynny sy'n fwyaf tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Byddwn yn cytuno ar gamau gweithredu allweddol eraill ochr yn ochr â datblygu'r ystod ehangach o flaenoriaethau Cyngor i'r gwasanaethau addysg sydd i gael eu sefydlu erbyn mis Medi.

Allyriadau Carbon a Defnyddio Llai o Ynni

Swyddog Atebol: Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles / Datblygu Cynaliadwy

Nod cyffredinol y flaenoriaeth hon yw lleihau allyriadau carbon a defnyddio llai o ynni, defnyddio ynni mor effeithlon ag y bo modd a defnyddio ynni adnewyddadwy lle bo modd ymhob cwr o ardal Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Wrth wneud hyn, bydd nifer o egwyddorion yn sail i'n gwaith, gan gynnwys arwain arferion da yng Nghymru ar y mater hwn, dylanwadu'n gadarnhaol ar ein gweithwyr, partneriaid a chymunedau a rheoli costau ynni cynyddol yn effeithiol er mwyn lleihau'r effaith negyddol a allai fod ar gyflenwi gwasanaethau. Byddwn yn gweithio tuag at gael gostyngiad sylweddol mewn allyriadau carbon a defnyddio llai o ynni ar hyd a lled Bwrdeistref Sirol Wrecsam erbyn 2020.

I gyflawni'r flaenoriaeth hon, bydd angen inni gymryd amryw o gamau gweithredu ar draws yr holl feysydd gwasanaeth i leihau eu hallyriadau carbon a'u defnydd o ynni gan gynnwys adeiladau annomestig, tai, gwastraff, goleuadau stryd a thrafnidiaeth. Mae gwaith gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi arwain at gynllun rheoli carbon cryf, uchelgeisiol, seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer yr awdurdod. Mae'r cynllun hwn yn blaenoriaethu prosiectau lleihau carbon mewn adeiladau annomestig, sy'n dod o dan yr Ymrwymiad Lleihau Carbon statudol, yna tai a gwastraff, sydd â'r ôl troed carbon mwyaf ar draws yr awdurdod, ac yna goleuadau stryd a thrafnidiaeth, sydd ag olion traed carbon llai o faint ond sy'n dangos tueddiad i gynyddu bob blwyddyn. Bydd cronfa garbon buddsoddi i arbed y Cyngor yn parhau i gael ei defnyddio i gyflenwi ystod eang o brosiectau effeithlonrwydd ynni ar draws adeiladau annomestig yn 2011/12 a byddwn yn edrych ar amrywiaeth o brosiectau ynni adnewyddadwy a allai gael eu cyflenwi ledled adeiladau annomestig a thai cymdeithasol, a allai hefyd greu incwm i'r awdurdod drwy Gynlluniau Cymhelliant y Llywodraeth Ganolog?. Bydd ymchwil ynglyn â chynigion Cam 2 ar gyfer Canolfan Ailgylchu Lôn y Bryn yn ceisio lleihau ôl troed carbon gwastraff trefol ledled y Fwrdeistref Sirol ymhellach, bydd cynllunio ail ran i'r rhaglen newid Goleuadau Stryd yn parhau i wella effeithlonrwydd ynni goleuadau stryd y Cyngor, a bydd yr Adolygiad Trawsnewid Trafnidiaeth hefyd yn arwain at leihad mewn carbon ym maes trafnidiaeth fel amcan allweddol.

14 Pennu ein Targedau

Bydd cyflwyno ymgyrch cyfathrebu carbon yn ystod 2011/12 gyda staff ac Aelodau, ysgolion a grwpiau cymunedol hefyd yn ceisio ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd allweddol hyn o fewn yr agenda leihau carbon, gan ddatblygu newid diwylliannol ac ymddygiadol sy'n para. Byddwn yn gwybod a fyddwn wedi llwyddo i gyflawni'r flaenoriaeth hon drwy fesur y canran o leihad mewn allyriadau carbon sy'n deillio o weithgareddau'r Cyngor yn erbyn llinell sylfaen. Byddwn hefyd yn mesur faint o arian yr ydym yn ei arbed drwy leihau'r allyriadau carbon a'r defnydd o ynni ac yn ceisio canfod cynnydd canrannol o ran y bobl ar draws y Fwrdeistref Sirol sy'n teimlo eu bod wedi newid eu hymddygiad i leihau eu 'hôl troed carbon'.

Beth yw'r canlyniad yr ydym ni eisiau ei gyflawni?

Lleihad sylweddol mewn allyriadau carbon ac yn y defnydd o ynni ledled Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi ei gyflawni:

Mesur Perfformiad	Alldro 2009/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
Cyflenwi'r prosiect solar PV/FIT ar draws tai Cyfrif Refeniw Tai dewisedig ac eiddo annomestig sy'n eiddo i'r cyngor. Monitro'r nifer o osodiadau sydd wedi eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2012	Ddim ar gael	Ddim ar gael	1500

Y camau gweithredu allweddol i'n helpu i wneud hyn yw:

Camau gweithredu 2011/12	Cerrig Milltir
Cyflenwi'r prosiect solar PV/FIT ar draws tai Cyfrif Refeniw Tai dewisedig ac eiddo annomestig sy'n eiddo i'r cyngor	Adrodd yn ôl i Fwrdd y Prosiect Carbon ynglŷn â'r cynnydd bob chwarter
Cyflawni pob un o brosiectau lleihau carbon 2011/12 ar gyfer stoc y Cyngor o adeiladau annomestig ar amser ac o fewn y gyllideb	Ch1 Hysbysebu am 'ddatganiadau o ddiddordeb' Ch2 Allan i dendr Ch3 Cyflwyno prosiectau a'u monitro Ch4 Cwblhau prosiectau

Camau gweithredu 2011/12	Cerrig Milltir
Nodi prosiectau lleihau carbon ar gyfer stoc y Cyngor o adeiladau annomestig ar gyfer 2012/13 gan ddefnyddio gwybodaeth o DECs, y Cynllun Rheoli Carbon, a'r Cynllun Rheoli Asedau	Ch1 Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn nodi prosiectau posib Ch2 Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn nodi prosiectau posib Ch3 Nodi prosiectau posib ar gyfer 2012/13 Ch4 Pennu hyd a lled y prosiectau a'u blaenoriaethu
Datblygu cynlluniau carbon isel er mwyn cwrdd â'r targed statudol ailgylchu 70% newydd	Mae gwaith ar y cyd â phartner Menter Cyllid Preifat y Cyngor FCC/WRG yn mynd rhagddo i gynhyrchu cynigion Cam II er mwyn cwrdd â thargedau ailgylchu statudol newydd Llywodraeth y Cynulliad. Rhagwelir y bydd y cynlluniau'n barod i gael eu hystyried gan yr aelodau erbyn canol 2011.
Rheoli datblygiad Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor a'i roi ar waith	Monitro Cynnydd ac Adrodd yn Ôl i Fwrdd y Prosiect Carbon (bob chwarter)
Monitro'r ôl troed carbon ledled gweithgareddau allweddol y Cyngor a diweddaru Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor yn briodol	Ch1 Casglu Data Allyriannau Carbon 2010/11 o adrannau perthnasol Ch2 Dadansoddi Data Allyriannau Carbon 2010/11 o Adrannau Perthnasol Ch3 Cytuno â'r adrannau perthnasol ar gamau gweithredu wedi'u diweddaru i leihau ôl troed carbon gweithgareddau allweddol Ch4 Diweddaru Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor ar gyfer 2012/13
Rheoli bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llwyr â Chynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon	Ch1 Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Ôl Troed ar gyfer 2010/11 a'u Cyflwyno i Asiantaeth yr Amgylchedd Ch2 Monitro Allyriannau Carbon a chymryd mesurau angenrheidiol i leihau allyriannau carbon a chydymffurfio â'r Ymrwymiad Lleihau Carbon Ch3 Monitro Allyriannau Carbon a chymryd mesurau angenrheidiol i leihau allyriannau carbon a chydymffurfio â'r Ymrwymiad Lleihau Carbon Ch4 Monitro Allyriannau Carbon a chymryd mesurau angenrheidiol i leihau allyriannau carbon a chydymffurfio â'r Ymrwymiad Lleihau Carbon
Cydlynu'r gwaith o gyflawni Prosiectau Lleihau Carbon 2011/12 y Cyngor a'r rheolaeth ariannol arnynt	Monitro Cynnydd ac Adrodd yn Ôl i Fwrdd y Prosiect Carbon (bob chwarter)
Cydlynu rhoi'r ymgyrch cyfathrebu carbon ar waith ar draws staff ac Aelodau, Ysgolion a Grwpiau Cymunedol	Ch1 Cyflwyno'r ymgyrch cyfathrebu carbon ar draws grwpiau peilot o staff, Aelodau, ysgolion a grwpiau cymunedol Ch2 Gwerthuso llwyddiant yr ymgyrch cyfathrebu carbon ymhlith grwpiau peilot o staff, Aelodau, ysgolion a grwpiau cymunedol Ch3 Penderfynu ar strategaeth i gyflwyno'r ymgyrch cyfathrebu carbon yn y dyfodol ar draws grwpiau staff ac Aelodau, ysgolion a grwpiau cymunedol Ch4 Ehangu cyflwyno'r ymgyrch cyfathrebu carbon ar draws grwpiau staff ac Aelodau, ysgolion a grwpiau cymunedol

Bydd y perfformiad yn erbyn y Flaenoriaeth Cyngor hon yn ystod 2010/11 yn cael ei gyflwyno yn rhan 3 o Gynllun y Cyngor 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad', a gynhyrchir ym mis Hydref 2011.

Blaenoriaethau Gwella

Dyma'r meysydd o strategaethau/cynlluniau sydd eisoes yn bodoli lle byddwn yn targedu sylw sylweddol er mwyn cyflawni newidiadau neu lle mae adrannau, yn unigol neu gyda'i gilydd, wedi penderfynu y bydd gwelliannau sylweddol yn digwydd.

Mynediad at Wasanaethau a Gwrando ar y Cyhoedd a'u Cael i Ddylanwadu ar Wasanaethau

Swyddog Atebol: Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Plant a Phobl Ifanc / Dysgu Gydol Oes

Canolbwynt y flaenoriaeth wella hon yw gwella mynediad cwsmeriaid at wasanaethau a gwella sut fyddwn yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn defnyddio'r wybodaeth honno i ddylanwadu ar ddylunio a chyflenwi gwasanaethau. Os ydym yn llwyddo i wneud pethau yn y maes hwn, bydd pobl yn dweud wrthym ei bod yn hawdd cysylltu â'r Cyngor a chael hyd i'r gwasanaethau y maent yn chwilio amdanynt, bydd pobl yn dweud wrthym eu bod yn cael safon dda o wasanaeth gan y Cyngor, a bydd pobl yn dweud wrthym eu bod yn teimlo bod y Cyngor yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt.

Y cynlluniau allweddol presennol a fydd yn cynnal y gwaith hwn yw'r Strategaeth Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, y Polisi Cwynion Corfforaethol a'r Strategaeth Cyfathrebu Mewnol ac Allanol. Yr adrannau allweddol sy'n cyfrannu at y flaenoriaeth hon yn 2011/12 fydd y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid.

Bydd y flaenoriaeth hon yn parhau i'w gwneud hi'n haws i gwsmeriaid gael mynediad at ein gwasanaethau yn 2011/12 drwy weithio i gynyddu'r nifer o bobl sy'n defnyddio dulliau hunan wasanaeth i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor, cynyddu'r gyfran o gyswllt â chwsmeriaid yr ymdrinnir ag ef drwy Contact Wrexham/Galw Wrecsam a chyflawni'r 'Prosiect Dweud Wrthym Unwaith' i ganiatáu i gwsmeriaid roi

gwybod am newid unwaith, a bod y wybodaeth honno'n cael ei rhannu ledled Llywodraeth leol a chanolog.

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddiannus drwy barhau i fonitro ein bod yn cadw at ein safonau gwasanaethau cwsmeriaid a thrwy fesur bodlonrwydd cwsmeriaid.

Byddwn yn gweithio i wella'r ffordd yr ydym yn gwrando ar ac ymwneud â'n cwsmeriaid, drwy adolygu a gwella ein peirianwaith ymgynghori corfforaethol presennol.

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddiannus drwy ddadansoddi sut mae gwybodaeth ymgynghori yn cael ei defnyddio i effeithio ar benderfyniadau gwasanaethau.

Beth yw'r canlyniad yr ydym ni eisiau ei gyflawni?

Rydym eisiau ei gwneud hi'n hawdd i gwsmeriaid ddefnyddio ein gwasanaethau, darparu gwasanaethau da i safon y cytunwyd arni a defnyddio'r wybodaeth mae cwsmeriaid yn ei rhoi inni i wella gwasanaethau.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi ei gyflawni:

Mesur Perfformiad	Alldro 2011/12 (Q3)	Targed 2011/12
Bodlonrwydd Cwsmeriaid â gwasanaethau Galw Wrecsam:		
Dros y ffôn	93%	94%
Wyneb yn wyneb	51%	70%
Ar y We	65%	66%
Newid proffil cyswllt cwsmeriaid tuag at hunan-wasanaeth:		
Dros y ffôn	21%	22%
Wyneb yn wyneb	10%	7%
Ar y We	69%	71%

Y camau gweithredu allweddol i'n helpu i wneud hyn yw:

Camau Gweithredu 2011/12	Cerrig Milltir
Gweithredu'r 'Gwasanaeth Dweud Wrthym Unwaith'	Gweithredu erbyn Ch2
Cyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos y newidiadau i wasanaethau sydd wedi digwydd o ganlyniad i wybodaeth oddi wrth ddefnyddwyr ac ymgynghori	Pedwerydd Chwarter

Bydd y perfformiad yn erbyn y Flaenoriaeth Cyngor hon yn ystod 2010/11 yn cael ei gyflwyno yn rhan 3 o Gynllun y Cyngor 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad', a gynhyrchir ym mis Hydref 2011.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Camddefnyddio Sylweddau ac Amgyffred o Drosedd

Swyddog Atebol: Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Ffyniant Economaidd / Asedau ac Isadeiledd / Diogelwch Cymunedol

Canolbwynt y maes gwella hwn yw parhau â gwaith sy'n helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau a dal i ddweud wrth bobl amdano, er mwyn gwella'r amgyffred o gyfraddau troseddu, fel eu bod yn adlewyrchu'r gwirionedd yn well. Os ydym yn llwyddo i wneud pethau yn y maes hwn, bydd llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau a bydd pobl yn dweud wrthym fod ganddynt lai o ofn trosedd.

Y strategaethau presennol a fydd yn cynnal y gwaith hwn yw Cynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, y Cynllun Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Cynllun Cydlyniant Cymunedol a'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

Ar gyfer 2011/12 mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu meddalwedd mapio ystadegol sy'n caniatáu i ddata gael ei arddangos yn ddaearyddol. Bydd hyn yn tynnu sylw at y galw am y gwasanaethau mewn llefydd/ardaloedd penodol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Awgrymir felly y dylai cynllunio gwasanaethau ar gyfer y Flaenoriaeth Wella hon yn 2011/12 gymryd y datblygiad hwn i ystyriaeth er mwyn sicrhau bod mesurau/camau gweithredu a thargedau/cerrig milltir cysylltiedig yn cael eu gyrru gan ganlyniadau a'r galw.

Bydd mesurau/camau gweithredu addas a thargedau a cherrig milltir yn sail iddynt yn cael eu datblygu felly drwy fisoedd Mai a Mehefin 2011. Awgrymir felly y dylid adrodd yn ôl am y mesurau a'r camau gweithredu hyn yn ddiweddarach ac fel rhan o'r rhaglen monitro perfformiad chwarterol. Serch hynny, bydd y perfformiad yn erbyn y Flaenoriaeth Wella hon yn ystod 2010/11 yn cael ei gyflwyno yn 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad', a gynhyrchir ym mis Hydref 2011.

Cynorthwyo Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol

Swyddog Atebol: Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles / Datblygu Cynaliadwy

Canolbwynt y flaenoriaeth wella hon yw cynorthwyo pobl hyn i fyw'n annibynnol a helpu pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyn hired â phosib lle mae hynny'n cyd-fynd â'u hanghenion.

Mae gan bobl hyn heddiw ddisgwyliadau uwch na chenedlaethau blaenorol ac maent fwyfwy eisiau cael gwasanaethau yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain sy'n anelu at hyrwyddo a chynyddu eu hannibyniaeth i'r eithaf. Yn ogystal, bydd galw cynyddol am gefnogaeth a gofal o ganlyniad i'r twf yn y boblogaeth hyn, y bydd 40% ohonynt dros 50 yn 2026, a gostyngiad yn nifer y bobl yn y grwp oedran 30-55, sef yn draddodiadol grwp oedran mwyafrif y gweithlu a'r gofalwyr di-dâl.

Ynghyd â phwysau cynyddol ar adnoddau ariannol, mae'r uchod yn golygu bod angen canolbwyntio o'r newydd ar wasanaethau sy'n galluogi Pobl Hyn i gadw eu hannibyniaeth, drwy eu cynorthwyo i gadw neu adennill y sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i fyw'n annibynnol a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â hynny iddynt.

Gyda theuluoedd yn fwy gwasgaredig a mwy nag erioed o Bobl Hyn yn byw ar eu pennau'u hunain, mae gwir angen am gynllunio gweithlu cydgysylltiedig ac am agwedd strategol at gefnogi iechyd a lles y 14,000 a mwy o ofalwyr di-dâl yn Wrecsam, y mae dros 3,500 ohonynt yn darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos.

Gweledigaeth Strategaeth Llety a Chymorth Tai ar gyfer Pobl Hyn Wrecsam (2007) yw:

- galluogi pobl hyn i aros yn eu cartref cyhyd ag y bo modd
- galluogi pobl hyn i wneud dewisiadau gweithredol, ar sail gwybodaeth, am dai, gofal a chefnogaeth addas ar yr un pryd â chael yr annibyniaeth mwyaf posib a'r ansawdd bywyd gorau posib
- galluogi pobl hyn i gael mynediad at amrywiaeth ehangach o lety, gwasanaethau gofal a chefnogaeth o safon

Dangosodd arolwg tai 2007 (Tai Pobl Hyn yn Wrecsam i'r Dyfodol: 2007) y bydd prinder sylweddol o dai fforddiadwy, hygyrch ar gyfer pobl hyn yn Wrecsam yn y 15-20 mlynedd nesaf.

20 Pennu ein Targedau

Arweiniodd hyn at angen i adolygu'r modelau tai a'r gwasanaethau cefnogi cysylltiedig â thai ar gyfer Pobl Hyn i sicrhau eu bod yn gwireddu'r weledigaeth hon. Yn ogystal â'r uchod cefnogir y gwaith yma gan:

- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (hwn fydd Ein Cyd-Gynllun)
- Cynllun Comisiynu Pobl Hyn (Gofal Cymdeithasol Oedolion)
- Cynlluniau Gwasanaethau/Adroddiad Blynyddol ar Ofal Cymdeithasol Oedolion a Thai a Diogelu'r Cyhoedd
- Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl
- Cytundeb Canlyniadau gyda Llywodraeth y Cynulliad

Mae'r cyflawniadau allweddol yn ystod dwy flynedd gyntaf y Flaenoriaeth Wella hon yn cynnwys:

- Mae gwasanaeth Teleofal cynhwysfawr wedi cael ei ddatblygu. Mae hyn wedi galluogi dros 1000 o Ddefnyddwyr Gwasanaethau newydd i gael gwasanaeth Teleofal i helpu i gynnal eu hannibyniaeth a'u hiechyd ac mae offer a lefel gwasanaeth dros 1500 o Ddefnyddwyr Gwasanaethau a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau'n barod wedi cael eu huwchraddio. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn fodd i gynorthwyo i ryddhau cleifion o ysbytai, gan osgoi gofal heb eu gynllunio a chefnogi pobl i barhau i fyw yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys Pobl Hyn, Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl a phobl ag Anawsterau Dysgu.
- Mae gwasanaeth gofal cartref 24 awr, gan gynnwys y Gwasanaeth Cefnogi Nos ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, wedi cael ei ddatblygu a bydd yn ehangu'r gwasanaeth 6 wythnos presennol er mwyn darparu mwy o wasanaeth tymor-hir i bobl hyn agored i niwed o fewn Wrecsam.
- Lansiwyd Llwybr Cwympiadau Gogledd Ddwyrain Cymru ym mis Mai 2009 i'r sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gwirfoddol. Mae'r dull hwn o weithredu drwy bartneriaeth wedi bod yn effeithiol rhwng pob sector, gan gyfrannu'n sylweddol tuag at leihau toriadau asgwrn y glun 12.1%.
- Mae datblygu Gwasanaeth Gofal Canolraddol integredig wedi helpu i osgoi argyfyngau iechyd, osgoi derbyniadau i ysbytai neu gartrefi gofal, a rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol. Mae Gwasanaeth Ailalluogi wedi cael ei integreiddio o fewn y Gwasanaeth Gofal Canolraddol i helpu pobl i gynnal eu sgiliau ac osgoi dibyniaeth ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol. Hyd yn hyn, ni fu angen gwasanaeth parhaus ar bron i hanner y bobl sydd wedi dod i mewn i'r gwasanaeth ailalluogi.
- Mae'r amseroedd aros ar gyfer asesiad Therapi Galwedigaethol, Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac addasiadau i gyd wedi lleihau.
- Mae'r gwaith o aildrefnu'r Gwasanaethau Wardeniaid Gwarchod yn mynd yn dda gyda pheilot Canolbwynt a Breichiau ar waith ar hyn o bryd.
- Mae rhoi cynllun Gofal Ychwanegol Plas Madog ar waith yn mynd yn ei flaen yn unol â'r cynllun a bydd yn agor yn ystod 2011/12.

Mae'r mesurau allweddol a fydd yn ein helpu i benderfynu a ydym yn cyflawni'r canlyniad Cynorthwyo Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol yn cael eu dangos yn y tabl isod. Byddwn yn adrodd yn ôl yn erbyn y mesurau hyn yn rheolaidd. Cefnogir y mesurau allweddol hyn gan rhyw 40 o gamau gweithredu a mesurau y byddwn yn eu monitro i sicrhau ein bod yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r canlyniad hwn.

Beth yw'r canlyniad yr ydym ni eisiau ei gyflawni?

Galluogi pobl hŷn i wneud dewisiadau gweithredol, ar sail gwybodaeth, i gynyddu eu hannibyniaeth a'u safon byw i'r eithaf, fel eu bod yn gallu byw yn eu cartrefi cyhyd ag y bo hynny'n bosib ac ymwneud â'u cymuned leol a galluogi pobl hŷn i gael mynediad at amrywiaeth ehangach o wasanaethau llety, gofal a chymorth o safon.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi ei gyflawni:

Mesur Perfformiad	Alldro 2009/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
Y canran o bobl sy'n cael Gwasanaeth Teleofal nad ydynt yn cael Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol parhaus, sy'n dweud fod eu hannibyniaeth a'u lles wedi gwella o ganlyniad (Arolwg i holl Ddefnyddwyr y Gwasanaeth Teleofal – i adrodd yn ôl arno'n flynyddol)	Ddim ar gael	Ddim ar gael	90%
I ba raddau y mae'r cymorth a gafwyd gan Ofal Cymdeithasol Oedolion yn cwrdd ag anghenion y Gofalwr (o safbwynt y Gofalwr) (Arolwg i'r holl Ofalwyr sy'n cael cymorth gan Ofal Cymdeithasol Oedolion - i'adrodd yn ôl arno'n flynyddol)	Ddim ar gael	65%	Tueddiad Cynyddol, O leiaf 85%
Y canran o bobl, ar ôl cael Gwasanaeth Ailalluogi, nad oes angen unrhyw wasanaeth wedi'i brynu sy'n parhau arnynt	Ddim ar gael	40%	55%
Cynnal y nifer o bobl sy'n dweud bod eu hannibyniaeth wedi gwella o ganlyniad i ymyrraeth gan Ofal Cymdeithasol Oedolion (Arolwg i bawb sy'n derbyn ymyrraeth gan Ofal Cymdeithasol Oedolion – i adrodd yn ôl bob hanner blwyddyn)	Ddim ar gael	Mesur Newydd	I'w Gynnal ar 90% neu fwy
Y nifer cyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i ddarparu grant Cyfleusterau i'r Anabl (y nifer o ddiwrnodau a gymerir o dderbyn atgyfeiriad i gwblhau'r gwaith)	387 diwrnod	350 diwrnod	275 diwrnod
Lleihau'r nifer o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal	Ddim ar gael	Mesur Newydd	Lleihau i 480 o bobl
Lleihau Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal am resymau Gofal Cymdeithasol	Ddim ar gael	23 oediad	Uchafswm o 22 oediad
Lleihau derbyniadau ysbyty y gellid eu hosgoi	Ddim ar gael	Mesur Newydd	200 Wedi'u Hosgoi
Cyflwyno Model Canolbwynt a Breichiau y Gwasanaeth Wardeniaid Gwarchod	Ddim ar gael	Cynnal Peilot a'i werthuso	Mewn o leiaf ddwy ardal

Bydd y perfformiad yn erbyn y Flaenoriaeth Cyngor hon yn ystod 2010/11 yn cael ei gyflwyno yn rhan 3 o Gynllun y Cyngor 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad', a gynhyrchir ym mis Hydref 2011.

22 Pennu ein Targedau

Bwyta'n Iach a Phobl yn Bod yn Fwy Egnïol

Swyddog Atebol: Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles / Datblygu Cynaliadwy

Pam bod hyn yn bwysig

Dangoswyd bod gordewdra'n lleihau disgwyliad oes o 11 mlynedd ar gyfartaledd. Bob blwyddyn mae 28,000 o drawiadau ar y galon yn digwydd yn y DU o achos gordewdra.

Mae ymchwil i'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â gordewdra wedi profi ei fod yn cynyddu'r ffactor risg ar gyfer clefydau megis clefyd coronaidd y galon, strôc, diabetes math 2, osteoarthritis a chanser. Yn ogystal mae hyn yn creu beichiau i gymdeithas yn gysylltiedig â rheoli cyflyrau cronig a chynhyrchiant economaidd a gollir drwy absenoldeb o'r gwaith.

Sut mae Wrecsam yn Gwneud? – Data Poblogaeth

Wrecsam sydd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau o ganlyniad i Glefyd Coronaidd y Galon yng Ngogledd Cymru.

Mae 52% o Oedolion Wrecsam yn Rhy Drwm neu'n Ordew



Mae 16% o Oedolion Wrecsam yn Ordew



Mae 1 ym mhob 4 plentyn ysgol blwyddyn pedwar (8/9 mlwydd oed) yn Wrecsam yn Rhy Drwm neu'n Ordew (1 ym mhob 5 yn y dosbarth derbyn) *(Ffynhonnell: Mesur taldra a phwysau plant yng Nghymru, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru 2009)*

28% o Oedolion Wrecsam sy'n cwrdd â'r Canllawiau Gweithgarch Corfforol *Parhau â thueddiad ar i lawr er 2007.*



31% o Oedolion Wrecsam sy'n bwyta '5 y Dydd' *Gwelliant bach o'i gymharu â'r llynedd ond mae Wrecsam yn dal i fod yn un o'r ardaloedd gwaethaf yng Nghymru.*



Dim ond 59% o famau Wrecsam sy'n dechrau bwydo o'r fron ar ôl geni a dim ond 31% sy'n dal ati ar ôl 8 wythnos.

Yr hanes tu ôl i'r llinell sylfaen – ffactorau sy'n effeithio ar y sefyllfa bresennol

- Newid yn swmp, math a safon y bwydydd a fwyteir e.e. bwyd cyflym, bwyd wedi'i brosesu, lefelau uchel o fraster dirlawn, llai o ffrwythau a llysiau.
- Lleihad sylweddol yn y defnydd o egni, drwy gynnydd mewn perchnogaeth ceir, canolfannau trefol neu ardaloedd preswyl wedi'u cynllunio'n wael, diffyg mannau gwyrdd ac ardaloedd hamdden, a ffyrdd o fyw a galwedigaethau eisteddog.
- Mae ffactorau amrywiol gan gynnwys disgwyliadau diwylliannol ac argaeledd gwybodaeth yn effeithio ar gyfraddau bwydo o'r fron.

Yr atebion mwyaf cyffredin a roddwyd yn arolwg Lleisiau Wrecsam 2008 ynglyn â'r rhwystrau rhag cynnal ffordd iach o fyw oedd:

- Anallu i wneud ymarfer corff yn rheolaidd o achos afiechyd, gwaith, oedran, costau ac amser
- Cost ffrwythau, llysiau a physgod
- Argaeledd bwydydd afiach rhad
- Dim digon o opsiynau bwyd iach mewn caffis, tafarnau a bwytai
- Anawsterau o ran cydbwyso amser ar gyfer coginio, gwaith, bywyd ac ymarfer corff
- Diffyg ysgogiad
- Mwynhau'r ffordd bresennol o fyw a'r bwydydd anghywir
- Diffyg gwybodaeth

Beth sy'n gweithio i wneud pethau'n well – y dystiolaeth

chwarae rhan sylweddol er cynnal pwysau iach, ac yn cyfrannu at atal llawer o gyflyrau cronig. Yng Nghymru, a'r DU, mae'r cyngor cyfredol yn argymell deiet sy'n ddigonol o ran cymeriant egni (i gynnal pwysau iach), yn isel mewn braster drwyddo draw a braster dirlawn; yn isel mewn halen; yn uchel mewn carbohydradau cymhleth (corbys a grawn), yn uchel mewn ffrwythau a llysiau; yn gymedrol mewn bwydydd llaeth braster isel a chig/ dofednod / pysgod / wyau. Mae bwydo o'r fron yn bwysig i roi'r dechau gorau mewn bywyd i fabanod a sicrhau llai o berygl eu bod yn mynd yn rhy drwm neu'n ordew yn ddiweddarach yn eu bywyd. Mae bod yn gorfforol egnïol yn ddylanwadol ac yn cael effaith gadarnhaol ar y ffactorau risg ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau cronig ac o ran cynnal pwysau iach.

24 Pennu ein Targedau

Mae angen gwella deiet a'r cyfraddau bwydo o'r fron, a'r lefelau gweithgarwch corfforol yn enwedig o fewn ystod o grwpiau a dargedir. Mae anghydraddoldebau iechyd yn bodoli, ac mae bod yn rhy drwm a gordewdra yn fwy tebygol o effeithio ar boblogaethau sy'n dioddef amddifadedd. Maent hefyd yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad at gyfleoedd bwyd iach a gweithgareddau corfforol.

Er mwyn atal y cynnydd mewn gordewdra a gorbwysedd, mae angen mabwysiadu agwedd amlasiantaethol seiliedig ar y boblogaeth. Y meysydd allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt yw:

- Mynd i'r afael â'r amgylchedd sy'n peri gordewdra (dylanwadau y mae'r amgylchoedd, y cyfleoedd, neu'r amodau byw yn eu cael yn hybu gordewdra)
- Annog pobl i wneud gweithgarwch corfforol yn rhan o'u harferion bob dydd.
- Hybu iechyd plant drwy famolaeth, magu, y blynyddoedd cynnar a'r ysgol.
- Cefnogi bwyta'n iach a bod yn fwy egnïol yn yr ysgol, y cartref, y gymuned a'r gweithle.
- Darparu triniaeth a chefnogaeth effeithiol pan fydd pobl yn mynd yn rhy drwm neu'n ordew.

Sut all y Cyngor gyfrannu at wneud pethau'n well?

Mae canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ar Ordewdra'n datgan y dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid lleol, megis diwydiant a mudiadau gwirfoddol, i greu a rheoli mwy o fannau diogel ar gyfer gweithgarwch corfforol (achlysurol ac wedi'i drefnu), a rhoi sylw i unrhyw bryderon ynghylch diogelwch, trosedd a chynhwysiad fel blaenoriaeth, drwy wneud y canlynol:

- Darparu cyfleusterau a chynlluniau fel llwybrau beicio a cherdded, parcio beiciau, mapiau ardal a mannau chwarae diogel
- Gwneud strydoedd yn lanach a mwy diogel, drwy fesurau fel gostegu traffig, tâl atal tagfeydd, croesfannau cerddwyr, llwybrau beicio, goleuo a chynlluniau cerdded
- Sicrhau bod adeiladau a mannau agored yn cael eu dylunio i annog pobl i fod yn fwy egnïol yn gorfforol (er enghraifft, drwy leoli grisiau a gosod arwyddion)
- Ystyried yn arbennig bobl y mae angen gwybodaeth a chefnogaeth benodol arnynt, yn enwedig grwpiau nad ydynt yn gwneud gweithgarwch corfforol, sy'n agored i niwed.

Mae NICE hefyd yn datgan y dylai gweithleoedd ddarparu cyfleoedd i weithwyr fwyta deiet iach a bod yn gorfforol egnïol, drwy:

- Fynd ati'n ddygn i hybu dewisiadau iach mewn bwytai, lletygarwch, peiriannau gwerthu a siopau ar gyfer gweithwyr a chwsmeriaid, yn unol â chanllawiau presennol yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Arferion a pholisïau gweithio, megis polisïau teithio drwy gerdded/beicio ar gyfer gweithwyr ac ymwelwyr
- Amgylchedd corfforol gefnogol, megis gwelliannau i risiau a darparu cawodydd a mannau parcio beiciau diogel
- Cyfleoedd hamdden, megis cefnogi gweithgareddau cymdeithasol y tu allan i oriau gwaith, cerdded amser cinio a defnyddio cyfleusterau hamdden lleol.

Cyflawniadau Allweddol

Yn ystod dwy flynedd gyntaf y flaenoriaeth wella hon mae cyflawniadau allweddol y Cyngor yn cynnwys:

- Ffurfio'r grwp Bwyta'n Iach a Bod yn Fwy Egnïol (HEBMA) amlasiantaethog a datblygu Strategaeth a chynllun gweithredu HEBMA sy'n mynd i'r afael â'r materion yma drwy weithio mewn partneriaeth.
- Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud wrth gyflwyno 'Blas am Oes' ar draws Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, gan gyflwyno bwydlenni amser cinio ac egwyl iachach a gwell amgylcheddau bwyta. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y nifer o blant sy'n cymryd cinio ysgol, cynnydd ym modlonrwydd disgyblion a chynnydd mewn ymwybyddiaeth o fwyta'n iach.
- Mae'r Gwasanaethau Hamdden wedi cyflwyno cynllun Gofalwyr o Oedolion i gefnogi Gofalwyr i wneud mwy o weithgarwch corfforol.
- Mae'r Tîm Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Adran Gynllunio wedi datblygu drafft cyntaf o ganllawiau cynllunio ychwanegol a fydd yn cyfyngu ar siopau bwyd cario allan poeth newydd yn agos iawn at ysgolion.
- Mae gwasanaeth arlwyo'r Cyngor wedi adolygu'r dewisiadau ar fwydlenni yn erbyn 'Canllawiau Arferion Arlwyo Da' gan arwain at fwydlenni diwygiedig gyda llai o eitemau bwyd afiach yng nghyfarfodydd a digwyddiadau'r Cyngor.
- Mae 3 llwybr cerdded a beicio diogel newydd wedi cael eu cwblhau, gydag 1 pellach i'w gwblhau erbyn yr 31ain o Fawrth 2012. Bydd y llwybrau hyn yn help i alluogi plant i gerdded neu feicio i'r ysgol yn ddiogel.
- Cafwyd cytundeb i alluogi'r Cyngor i weithio tuag at y Safon Iechyd Gorfforaethol.
- Cytunwyd mewn egwyddor ar y Cynllun Beicio i'r Gwaith ac mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ganfod darparwr addas.
- Mae MEND (Mind, Exercise, Nutrition … Do It!) wedi cwblhau 4 rhaglen (40 teulu) i gefnogi plant gordew a'u teuluoedd i reoli eu pwysau yn well a byw bywydau iachach drwy wella eu hiechyd a'u ffitrwydd a'r ffordd y maent yn teimlo o ynglyn â'u cyrff.
- Mae 1500 o bobl wedi cymryd rhan yn y cynllun 'Atgyfeiriadau Ymarfer Corff', sydd wedi eu cefnogi i wneud mwy o weithgarwch corfforol.
- Mae'r defnydd o'r Gwasanaethau Hamdden yn parhau i gynyddu gyda chynnydd o 25% yn 2009/10.
- Mae'r nifer o bobl o dan 16 oed sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol wedi cynyddu'n sylweddol, gan adlewyrchu'r pwyslais a roddwyd ar waith estynedig gyda'r grwp hwn ac effaith y Cytundeb Partneriaeth Ardal Leol (LAPA).
- Mae 327 o blant wedi cael eu cefnogi i gynyddu eu gweithgarwch corfforol drwy gymryd rhan yn y rhaglenni Active 8-2-16.

Dangosir y mesurau allweddol a fydd yn ein helpu i benderfynu a ydym yn cwrdd â chanlyniad Galluogi Pobl i Wneud Dewisiadau Iach Ynglyn â Bwyta'n Iach a bod yn Fwy Egnïol yn y tabl isod. Byddwn yn adrodd yn ôl yn erbyn y mesurau hyn yn rheolaidd. Cefnogir y mesurau allweddol hyn gan tua 40 o gamau gweithredu a mesurau y byddwn yn eu monitro i sicrhau ein bod yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r canlyniad hwn.

Beth yw'r canlyniad yr ydym ni eisiau ei gyflawni?

Galluogi pobl i wneud dewisiadau iach ynglyn â bwyta'n iach a bod yn fwy egnïol.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi ei gyflawni:

Mesur Perfformiad	Alldro 2009/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
Cydymffurfio â'r Safonau Bwyd a argymhellir gan 'Blas am Oes' ar gyfer ciniawau ysgol a darpariaeth tu allan i amser cinio ym mhob Ysgol Uwchradd	Ddim ar gael	Ddim ar gael	1 Ysgol yn cydymffurfio erbyn mis Medi 2011 I gyd yn cydymffurfio erbyn mis Medi 2012
Cynyddu'r nifer presennol o blant sy'n cymryd prydau Ysgol Gynradd am ddim	72.95%	Ddim ar gael	Tuedd ar i fyny
Cynyddu'r nifer presennol o blant sy'n cymryd prydau Ysgol Uwchradd am ddim	57.62%	Ddim ar gael	Tuedd ar i fyny
Cyflwyno canllawiau cynllunio ychwanegol i gyfyngu ar siopau bwyd cario allan poeth newydd yn agos iawn at ysgolion.	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Mabwysiadu erbyn diwedd Chwarter 1
Cyfanswm y nifer o oedolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a ddarperir gan Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant. (Gan gynnwys Datblygu Chwaraeon yn y gymuned, addysg a gweithgareddau hyfforddi mewn Canolfannau Cymunedol a gefnogir gan Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant)	559,278	580,000	595,000
Y canran o atgyfeiriadau sy'n dal yn weithredol ar ôl 4 mis ar y Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff	Ddim ar gael	Ddim ar gael	50%
Cyfanswm nifer y rhai dan 16 sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a ddarperir gan Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant. (Gan gynnwys Campau'r Ddraig a gweithgareddau cymunedol a gefnogir gan Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant)	765,849	769,000	773,507
Y nifer sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni 5x60 (11 i 16 mlwydd oed)	39,925	Ddim ar gael	40,326
Nifer y rhai dan 16 sy'n cymryd rhan yn y cynllun cyfeirio Active 8-2-16	193	125	63 (hyd at fis Awst – gan mai dim ond ariannu ar gyfer rhan o'r flwyddyn sydd wedi'i gadarnhau – Cymorth)
Y canran o blant sy'n cwblhau'r cynllun MEND (mynd i'r afael â gordewdra trwy weithio gyda'r teulu cyfan)	Ddim ar gael	Ddim ar gael	70%

Bydd y perfformiad yn erbyn y Flaenoriaeth Cyngor hon yn ystod 2010/11 yn cael ei gyflwyno yn rhan 3 o Gynllun y Cyngor 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad', a gynhyrchir ym mis Hydref 2011.

Lleihau Gwastraff i'r Eithaf ac Ailgylchu

Swyddog Atebol: Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles / Datblygu Cynaliadwy

Gosodwyd targedau statudol gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer ailgylchu, compostio ac ailddefnyddio; yr un nesaf yw 52% yn 2012/13 gan gynyddu i 70% erbyn 2025. Mae targedau statudol ar gyfer faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi hefyd. Bydd methiant i gyflawni'r rhain yn arwain at ddirwyon sylweddol ar lefel awdurdod lleol.

Canolbwynt y maes gwella hwn yw lleihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i dirlenwi, a chynyddu faint o ailgylchu mae pawb yn ei wneud. Cyflawni'r gostyngiadau a'r codiadau hyn fydd mesur ein llwyddiant yn y maes hwn. Ar hyn o bryd mae'r strategaeth allweddol a fydd yn cynnal y gwaith hwn, y Strategaeth Rheoli Gwastraff Dinesig, yn cael ei hailddatblygu. Yr adran allweddol sy'n cyfrannu at y flaenoriaeth hon yn 2010/11 yw Adran yr Amgylchedd.

Manylir isod ar yr amcanion allweddol o'r strategaeth bresennol y bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio arnynt. Ein bwriad yw dal i gasglu mwy a mwy o ddeunyddiau ailgylchadwy gan gwsmeriaid cartref a masnachol gan reoli gwastraff trefol yn fwy effeithiol i gynyddu'r swmp sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu'i gompostio. Rhai o'r camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd i'n cynorthwyo i gyflawni hyn yw ffurfio cysylltiadau cryfach a gweithio ar y cyd ag ysgolion, dechrau casglu gwastraff cegin a chardbord bob yn dipyn, a chynnal digwyddiadau cynyddu ymwybyddiaeth i annog aelwydydd, ysgolion a chwsmeriaid masnachol i fynd ati'n weithredol i ailgylchu. Rydym hefyd yn ceisio cynyddu faint o wastraff sy'n cael ei dderbyn mewn safleoedd amwynder gwastraff cartref y mae modd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu'i gompostio a lleihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Yn sail i'r holl waith hwn byddwn yn dal i weithredu'r cynllun ailgylchu gwastraff.

Beth yw'r canlyniad yr ydym ni eisiau ei gyflawni?

Casglu deunyddiau ailgylchadwy gan gwsmeriaid cartref a masnachol a gwella'r drefn Rheoli Gwastraff Gweddilliol.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi ei gyflawni:

Mesur Perfformiad	Alldro 2009/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
Y canran o wastraff trefol sy'n cael ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio (mesur cenedlaethol WMT/001)	41.86%	44%	50%
WMT007 Y canran o wastraff trefol a dderbynnir mewn safleoedd amwynder gwastraff cartref sy'n cael ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio – Mesur Cenedlaethol	54.17%	55%	62%

Bydd y perfformiad yn erbyn y Flaenoriaeth Cyngor hon yn ystod 2010/11 yn cael ei gyflwyno yn rhan 3 o Gynllun y Cyngor 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad', a gynhyrchir ym mis Hydref 2011.

Hyrwyddo Cyfle Cyfartal i Blant a Phobl Ifanc Ddod yn Ddwyieithog a Hyrwyddo Diwylliant Cymru

Swyddog Atebol: Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Plant a Phobl Ifanc / Dysgu Gydol Oes

Canolbwynt y maes gwella hwn yw gweithio tuag at sefyllfa lle bydd hi'n bosib i holl blant a phobl ifanc y Fwrdeistref Sirol gael mynediad at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg, dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a dod yn ddwyieithog. Bydd y maes gwella hefyd yn fodd i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru.

Y strategaethau allweddol presennol a fydd yn cynnal y gwaith hwn yw Cynllun yr Iaith Gymraeg a'r Cynllun Addysg Gymraeg sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Yr adrannau allweddol sy'n cyfrannu at y flaenoriaeth hon yn 2011/12 yw Dysgu Gydol Oes, Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, Lles Cymunedol a Datblygu, ac Asedau a Datblygu Economaidd.

Yn 2011/12, byddwn yn ceisio gwella cydraddoldeb mynediad i ysgolion Cymraeg cynradd ac uwchradd a chydraddoldeb mynediad a chyfle i'r rhai sydd eisiau cael addysg ddwyieithog.

Wrth sicrhau cydraddoldeb mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg byddwn yn anelu at gynyddu'r gyfran o'r staff sy'n rhugl yn y Gymraeg ac at sefyllfa lle mae trigolion sy'n cysylltu â'r Cyngor yn hapus â lefel y gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn hefyd yn darparu cyfleoedd i bobl gynyddu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru drwy groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol a thrwy fonitro'r nifer o ymwelwyr sy'n mynychu digwyddiadau diwylliannol neu arddangosfeydd Cymreig, ac yn anelu at gael pobl i fynychu rhaglenni diwylliannol sy'n cael eu rhedeg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Beth yw'r canlyniad yr ydym ni eisiau ei gyflawni?

Sicrhau mynediad cyfartal i ysgolion Cymraeg ar lefelau cynradd ac uwchradd, sicrhau cyfle cyfartal i'r rhai sydd eisiau addysg ddwyieithog, sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau'r Cyngor a darparu cyfleoedd i bobl gynyddu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi ei gyflawni:

Mesur Perfformiad	Alldro 2009/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
Y canran o blant sy'n symud ymlaen o'r blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg i ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2011	87% 2010 78% 2009 73% 2008	95%	95%
Y canran o blant sy'n symud ymlaen o ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2011	2010 97.6% 2009 93% 2008	96%	96%
% disgyblion sy'n sefyll TGAU llawn mewn Cymraeg fel ail iaith	22%	5% o gynnydd o'u gymharu â'r flwyddyn cynt	27%
% sy'n cael gradd A*-C mewn TGAU Cymraeg fel ail iaith (cwrs llawn)	76.3%	80%	80%

Y camau gweithredu allweddol i'n helpu i wneud hyn yw:

Camau Gweithredu 2011/12	Cerrig Milltir
Gosod llinell sylfaen i'r nifer o geisiadau a wrthodwyd am lefydd mewn: a) Ysgolion Meithrin cyfrwng Cymraeg b) Dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg c) Ysgolion Uwchradd cyfrwng Cymraeg	Llinellau sylfaen i gael eu pennu erbyn Chwarter 3
Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn flynyddol	Wedi'i gwblhau erbyn Mehefin 2011
Hybu'r Eisteddfod Genedlaethol Ch1 – Sicrhau bod isadeiledd CBSW yn ei le Ch2 – Digwyddiad llwyddiannus yn cael ei gynnal yn Wrecsam Ch3 – Ôl-drafodaeth	 Chwarter 1 Chwarter 2 Chwarter 3
Cyrraedd yr un safonau gofal cwsmeriaid ar fynediad/ceisiadau cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg â thrwy gyfrwng y Saesneg	Chwarter 3

Bydd y perfformiad yn erbyn y Flaenoriaeth Cyngor hon yn ystod 2010/11 yn cael ei gyflwyno yn rhan 3 o Gynllun y Cyngor 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad', a gynhyrchir ym mis Hydref 2011.

Diogelu ein Plant

Swyddog Atebol: Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad – Plant a Phobl Ifanc / Dysgu Gydol Oes

Dynodwyd y flaenoriaeth wella hon yn 2010 ac mae'n cael ei diffinio'n flynyddol fel rhan o Fframwaith Adroddiadau Blynyddol y Cyngor (ACRF) ar gyfer Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. O ganlyniad, mae'r targedau, y mesurau a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Cyngor hwn yn ddibynnol ar i'r Bwrdd Gweithredol gymeradwyo'r adroddiad hwnnw yn derfynol.

Mae'r gwaith o gynhyrchu'r adroddiad blynyddol yn cael ei oruchwylio gan grwp ar y cyd o Aelodau a Swyddogion, gyda'r Aelodau'n cynnwys Arweinydd y Cyngor, dau Aelod Arweiniol a Chydgadeiryddion y ddau bwyllgor Craffu. Mae drafft o'r adroddiad i fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai a'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ym mis Mehefin 2011. Bydd y fersiynau hyn yn cynnwys y wybodaeth derfynol ar berfformiad blynyddol 2010/11, fel y'i cyflwynwyd i Lywodraeth y Cynulliad. Byddant hefyd yn cynnwys gwybodaeth am wariant gwirioneddol 2010/11.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol ar gyfer 2010/11 a'r Cynllun Busnes ar gyfer 2011/12 yn cael eu cyflwyno wedyn i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Gorffennaf i gael eu cymeradwyo.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn hunan-asesiad o Berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae pob un o'r 22 Awdurdod Lleol ledled Cymru erbyn hyn yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol gan ddilyn dull y gwnaethpwyd peilot ohono gan Wrecsam a Thorfaen yn 2008/9. Bwriad yr Adroddiad Blynyddol yw sicrhau fod Awdurdodau Lleol yn cymryd perchnogaeth o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol a chyflwyno darlun o'r perfformiad y mae pawb sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau (Aelodau, partneriaid, asiantaethau eraill, gweithwyr, ayb.) yn gallu ei adnabod ac, yn bwysicach, ddarlun y mae'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau yn ei adnabod.

Yn 2011/12, mae'r Adran Blant a Phobl Ifanc – Atal a Gofal Cymdeithasol yn ceisio cyflawni'r gwelliannau gwasanaeth a nodwyd yn yr adroddiad blynyddol ac, yn arbennig, sicrhau fod plant sy'n ymwneud â'r Adran yn cael eu hasesu ar adegau priodol a bod eu cynlluniau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

32 Pennu ein Targedau

Beth yw'r canlyniad yr ydym ni eisiau ei gyflawni?

Diogelu plant a phobl ifanc yn Wrecsam.

D.S. Mae'r Adran Atal a Gofal Cymdeithasol yn cyfrannu at y canlyniad hwn ond mae ei gyflawni'n dibynnu ar weithio mewn partneriaeth â llawer o asiantaethau eraill.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi ei gyflawni:

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl pa mor dda y mae'r adran, mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, yn cyflawni ar y mesurau allweddol. Bydd unrhyw anawsterau a brofir mewn perthynas â gweithio amlasiantaethog yn cael eu codi gyda'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol (a unwyd yn ddiweddar gyda Chyngor Sir y Fflint) er mwyn cyflawni'r mesurau allweddol. Bydd y mesurau allweddol yn cael eu cadarnhau yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn cael ei gwblhau ym mis Gorffennaf ond maent yn debygol o gynnwys y canlynol:

- Nifer a chanran yr asesiadau sy'n cael eu cwblhau ar amser
- Y nifer o adolygiadau sy'n cael eu cwblhau ar amser
- Y % o blant sy'n parhau i gael gweithiwr cymdeithasol cymwys wedi'i ddynodi iddynt
- Lleihad yn y nifer o gysylltiadau a dderbynnir lle mai "Angen mwy o wybodaeth" yw'r penderfyniad o achos safon y wybodaeth a dderbynnir.
- Nifer a % y plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y broses diogelu plant.
- Nifer a % y gweithwyr asiantaeth a gyflogir yn ystod y flwyddyn.

Y camau gweithredu allweddol i'n helpu i wneud hyn yw:

Canlyniadau Allweddol 2011/2012	Camau Gweithredu
Plant sy'n ymwneud â'r Adran yn derbyn asesiadau o safon ar adegau priodol a'u cynlluniau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.	Ch1 Datblygu cynllun unigol (yn ddibynnol ar gytundeb AGGCC) ac adolygu dogfennau asesu. Gweithio gydag asiantaethau atgyfeirio yn ystod y flwyddyn i sicrhau fod y wybodaeth y maent yn ei darparu i'r tîm dyletswydd ac asesu yn wybodaeth o safon uchel.
Plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill yn cymryd rhan lawn yn eu hasesiadau, cynlluniau ac adolygiadau.	Adolygu'r dogfennau a roddir i deuluoedd ynglŷn â'r broses Ddiogelu Plant erbyn diwedd chwarter 2, eu newid yn ôl y galw ac yna'u dosbarthu. Adolygu'r defnydd o ddogfennau ymgynghori Diogelu Plant a ddarperir i blant a phobl ifanc erbyn diwedd chwarter 2 i sicrhau eu bod yn addas at eu pwrpas.
Gweithwyr proffesiynol o asiantaethau allanol yn gwbl ymwybodol o'r defnydd o TAC ac yn deall beth sy'n gwneud atgyfeiriad addas at wasanaethau gofal cymdeithasol i blant.	Hyfforddiant pellach i gael ei ddarparu gan y tîm TAC.
Sicrhau fod y system recordio electronig ar gyfer Plant yn addas ar gyfer ei phwrpas ac yn cefnogi ymarferwyr yn eu gwaith; Gweithwyr gofal cymdeithasol cymwys parhaol sy'n gweithio yn yr Adran.	Yn Ch1 a Ch2, bydd cynllun y Prosiect llif gwaith yn cael ei weithredu. Ch3 Hyfforddiant staff i ddefnyddio'r broses newydd yn cael ei ddarparu Ch4 Prosiect wedi'i gwblhau. Ch1 Gweithredu'r strwythur tâl a gyrfa newydd. Lleihau'r ddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth yn ystod y flwyddyn.

Bydd y perfformiad yn erbyn y Flaenoriaeth Cyngor hon yn ystod 2010/11 yn cael ei gyflwyno yn rhan 3 o Gynllun y Cyngor 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad', a gynhyrchir ym mis Hydref 2011.

Blaenoriaethau Gwella Gwasanaethau

Rydym yn ymrwymo i ddal i wella ein gwasanaethau ymhob adran a chaiff y blaenoriaethau gwella gwasanaethau a nodwyd gan adrannau eu hamlinellu yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol bob blwyddyn.

Rhaglen Drawsffurfio

Bwriad y Rhaglen Drawsffurfio yw cefnogi'r sefydliad i foderneiddio a gwneud y newidiadau y mae eu hangen i ymateb yn effeithiol i'r amgylchiadau ariannol, technolegol a chwsmeriaid cyfnewidiol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddynt. Mae'r Cyngor eisiau sicrhau fod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd gynaliadwy sydd wedi'i chynllunio a'i rheoli.

Mae'r rhaglen drawsffurfio o newidiadau yn cynnwys nifer o wahanol weithgareddau, gyda rhai ohonynt wedi cyfrannu'n barod at yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer 2011/12, er enghraifft adolygiadau gwasanaethau a'r ailstrwythuriad rheoli. Mae gweithgareddau pellach i foderneiddio'r sefydliad a chyfrannu at yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer y blynyddoedd i ddod, er enghraifft comisiynu model busnes economi gymysg y Cyngor, a'r prosiectau trawsffurfio yn parhau.

Mae pob Pennaeth Adran yn gyfrifol am weithredu newidiadau o fewn ei Adran, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwyr Strategol a Pherfformiad a'r sgiliau arbenigol a ddarperir gan y tîm Trawsffurfio ac arweinwyr prosiect. Mae'r prosiectau trawsffurfio wedi cael eu dynodi trwy ymchwil, trafodaethau a sesiynau herio rhwng Adrannau, y Tîm Rheoli Strategol a Thîm y Rhaglen yn ogystal â defnyddio gwybodaeth a gasglwyd o weithdai Aelodau. Mae maint sylweddol o ymchwil wedi cael ei wneud i baratoi achosion busnes seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pob un o'r prosiectau, i nodi gweithgareddau seiliedig ar arferion da y gellid eu gweithredu o fewn y Cyngor a'r arbedion potensial sy'n gysylltiedig â hynny. Er mis Mawrth mae nifer o'r prosiectau wedi dechrau cael eu gweithredu gan wneud gwelliannau i wasanaethau yn ogystal ac arbedion ariannol.

Yn ystod y misoedd nesaf wrth i'r Rhaglen Drawsffurfio barhau i yrru arbedion effeithlonrwydd er gwaethaf y pwysau parhaol sy'n gysylltiedig â chyllidebau tynnach a'r gostyngiadau gwariant a ragwelir, gallai fod rhaid adolygu ein gallu i gyflawni pob un o'r canlyniadau o dan y Blaenoriaethau Gwella.

Rhaglen Wella

Drwy ein cylch cynllunio corfforaethol a chylch cynllunio'r gyllideb, yr agenda gwella ac effeithlonrwydd a chyfranogiad ym Mwrdd Partneriaeth Ranbarthol y Gogledd, byddwn yn mynd ati i nodi ble mae angen prosiectau gwella ac adolygiadau, i helpu i gyflenwi gwasanaethau priodol sy'n rhoi gwerth am yr arian ac yn creu arbedion effeithlonrwydd. Ar gyfer 2011/12, fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae prosiectau ac adolygiadau gwella ac effeithlonrwydd wedi bod yn rhan o'r gwaith cynllunio gwasanaethau. Maent yn cael eu nodi yng nghynlluniau gwasanaeth yr adrannau ac maent yn cydgysylltu â'n blaenoriaethau. Adroddir yn ôl arnynt i'r Bwrdd Gweithredol bob blwyddyn.

Fel aelod o Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol y Gogledd rydym yn cymryd rhan mewn adolygiadau cydweithredol i benderfynu ar ddichonoldeb cydweithio ar draws y Gogledd.

Mae peth o'r gweithgarwch cydweithredol sy'n parhau yn 2011/12 i'w weld ar draws nifer o feysydd, yn enwedig:

- Mae prosiectau a ddechreuwyd yn 2007/8, mewn ymateb i agenda Creu'r Cysylltiadau a osodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, wedi dod yn rhan annatod o gyflenwi gwasanaethau.
- Nifer o brosiectau gwaddol, mwy o faint, sydd wedi cael eu monitro'n agos a'u cefnogi gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Mae nifer o brosiectau eraill a oedd yn cael eu goruchwylio'n wreiddiol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol erbyn hyn yn cael eu harwain yn broffesiynol gan Swyddogion ym mhob Awdurdod.
- Mae'r llinyn olaf o brosiectau cydweithredol sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam erbyn hyn yn dod o dan Fyrddau Rhaglen penodol. Mae'r Byrddau Rhaglen a ddatblygwyd yn ddiweddar drwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol y Gogledd yn benodol ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, Addysg a Gwasanaethau Cysylltiedig, Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddio a Gwasanaethau Corfforaethol ac Eraill.

Crëwyd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Wrecsam yn 2007 ac mae Cyngor Wrecsam wedi bod yn allweddol yn ei esblygiad a hefyd yn y gwaith o weithredu prosiectau Cytundeb Cyflenwi Lleol Llywodraeth y Cynulliad.

Yn ystod 2010/11 roedd y Cyngor yn parhau â'i waith gyda'i bartneriaid ar y prosiectau Cytundeb Cyflenwi Lleol, a oedd eleni'n cynnwys:

- Gwella safon byw ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddyliol (blwyddyn 3 o brosiect 3 blynedd) – Mae hyn wedi golygu gweithio gyda gweithwyr a gofalwyr i greu mwy o gyfleoedd i ganiatáu i gwsmeriaid fyw bywydau mwy annibynnol.
- Wrap around care for children and young people – this has been examining how we could reduce the number of children and young people placed out of area who had complex needs or behavioural issues.
- Atal (agenda alcohol) – roedd hyn yn golygu gwneud asesiad o'r holl wasanaethau alcohol i geisio adnabod unrhyw is-grwpiau o'r boblogaeth nad oeddynt yn cael eu targedu gan wasanaethau a oedd yn bodoli'n barod.

Cytundebau Canlyniadau

Ym mis Ebrill 2010, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad Gytundebau Canlyniadau gyda Grant Cytundeb Canlyniadau cysylltiedig, gwerth tua £1.3m yn flynyddol i Wrecsam, i ddisodli'r Cytundebau Gwella.

Roedd y Cytundebau Gwella yn ffordd i Awdurdodau Lleol ddelio â'r prif broblemau a'r blaenoriaethau yn eu hardaloedd, ac roeddynt hefyd yn cyfrannu at amcanion strategol cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad. Er eu bod yn debyg i Gytundebau Gwella o ran dull gweithredu, mae'r themâu y mae canlyniadau ar gyfer y Cytundeb Canlyniadau'n cael eu dewis oddi tanynt wedi newid yn sylweddol ynghyd â'r feddylfryd sylfaenol o weithio tuag at ganlyniadau mesuradwy i wasanaethau cyhoeddus.

Cytunwyd ar ac arwyddwyd Cytundeb Canlyniadau llawn Wrecsam, sydd yn ei le o 2010 i 2013, gan y Gweinidog dros Gyfiawnder a Llywodraeth Leol, Carl Sargeant AC yn gynnar ym mis Ionawr 2011. Mae'r cytundeb llawn i'w weld yn Atodiad I.

Bydd ein perfformiad yn erbyn Blwyddyn Un o'r Cytundeb Canlyniadau yn cael ei gyflwyno yn rhan 3 o Gynllun y Cyngor 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad', a gynhyrchir ym mis Hydref 2011.

Fframwaith Mesur Perfformiad Awdurdodau Lleol Cymru

Dangosyddion Perfformiad 2011-12

Mae'r fframwaith mesur perfformiad cyfredol wedi bod yn weithredol dros y chwe blynedd diwethaf. Mae partneriaid cenedlaethol yn gwybod fod gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn golygu y bydd ar awdurdodau angen gwahanol fathau o wybodaeth gwella yn y dyfodol. Yn 2010 dewisodd Llywodraeth y Cynulliad bennu nifer o Ddangosyddion Statudol ar gyfer 2010-11, a throsglwyddo cyfrifoldeb dros weddill y dangosyddion i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cytunodd Pwyllgor Cydlynu'r Gymdeithas y dylai'r Fframwaith Mesur Perfformiad gael ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn addas at ei bwrpas. Fodd bynnag, dylai'r adolygiad geisio sicrhau ei fod yn cael yr effaith leiaf posib ar awdurdodau lleol, gan ganiatáu iddynt gadw'r dulliau lleol sydd ganddynt ar hyn o bryd ac y bydd yn ei le erbyn mis Ebrill 2011.

Er mwyn bodloni'r egwyddorion uchod, cytunodd y Pwyllgor Cydlynu y byddai'r Fframwaith Mesur Perfformiad, fel man cychwyn, yn cael ei rannu'n set lai o wybodaeth atebolrwydd cyhoeddus a'r gweddill yn cael ei gadw i ddechrau fel gwybodaeth gwella gwasanaethau, gan greu Fframwaith Gwella Perfformiad newydd i lywodraeth leol yng Nghymru. Bydd y wybodaeth gwella gwasanaethau (sy'n cynnwys rhyw 112 dangosydd) yn cael ei chasglu gan gynghorau ar sail wirfoddol. Petai data penodol ddim yn cael ei ystyried yn berthnasol neu'n werthfawr, bydd yr awdurdodau'n rhoi'r gorau i'w gasglu a'i rannu. Bydd trafodaethau ynglyn â chyfansoddiad y set ddata hon yn y dyfodol gyda phob gwasanaeth, drwy grwpiau/rhwydweithiau proffesiynol presennol (lle mae'r rheini'n bodoli), yn dechrau tua mis Ebrill neu Fai 2011.

Dangosyddion Statudol (Strategol Cenedlaethol) ac Atebolrwydd Cyhoeddus - Mae Gweinidogion Cymru, gan ddefnyddio'r pwerau sy'n rhan o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, wedi gosod mesurau strategol cenedlaethol a fydd yn caniatáu i awdurdodau fesur ac adrodd yn ôl ar eu cyfraniad at amcanion polisi mawr Cymru gyfan. Mae awdurdodau lleol dan ddyletswydd gyfreithiol i gasglu ac adrodd yn ôl ar y dangosyddion hyn. Mae'r dangosyddion hyn yn adlewyrchu canlyniad yr ymgynghoriad ynghylch y set ddiwygiedig o ddangosyddion, a gynhaliwyd ddiwedd 2009. Yng ngoleuni Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar ei newydd wedd, dim ond newidiadau cyfyngedig, technegol sy'n cael eu cyflwyno i'r fframwaith ar gyfer 2011-12 tra bo gwaith ar werthuso a diwygio'r Fframwaith Mesur Perfformiad yn parhau.

Ar gyfer 2011-12, cynigir y bydd Dangosyddion Atebolrwydd Cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol hefyd ochr yn ochr â'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol sy'n eiddo i Lywodraeth y Cynulliad. Bydd y dangosyddion hyn yn cynnwys set fach (25) o ddangosyddion sy'n "canolbwyntio ar ganlyniadau", wedi'u dewis i ddechrau o'r Fframwaith Mesur Perfformiad presennol. Maent yn adlewyrchu'r agweddau hynny o waith awdurdodau lleol y mae awdurdodau lleol yn cytuno eu bod yn cael eu hystyried yn bwysig o ran atebolrwydd cyhoeddus. Mae'r dangosyddion hyn yn ofynnol ac adroddir arnynt yn genedlaethol, a byddant yn cael eu dilysu/archwilio. Cynigir y bydd y set genedlaethol yn cael ei hadolygu a'i diwygio dros amser i ddatblygu dangosyddion canlyniadau gwell, ac fe allai ddod yn rhan o Fframwaith Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus ehangach petai hynny'n digwydd.

Mae'r dangosyddion Cenedlaethol Strategol (NSI) a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM) arfaethedig yn ffurfio casgliad o 44 dangosydd statudol a amlinellir yn y tabl isod:

Cyf:	Dangosydd Statudol (Cenedlaethol Strategol)	Alldro 08/09	Alldro 09/10	Safle Chwartel 09/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
	Addysg					
EDU/002	Y canran o: i) Bob disgybl (gan gynnwys y rheiny sydd dan ofal yr awdurdod lleol), a	0.1%	1	1%	0.2%	0.4%
	ii) Disgyblion dan ofal yr awdurdod lleol, mewn unrhyw ysgol sy'n cael ei chynnal gan yr awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed ar yr 31ain o Awst blaenorol, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu wedi'i seilio ar waith heb gymhwyster allanol wedi'i gymeradwyo	40%	0%	1	0%	25%
EDU003 (PAM)	Y canran o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd, fel y dyfarnir drwy Asesiad Athro	76.2%	77.81%	2	80%	80%
EDU004 (PAM)	Y canran o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd, fel y dyfarnir drwy Asesiad Athro	60.02	62.39	2	63%	65%
EDU/011 (NSI & PAM)	Y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer disgyblion oedd yn 15 oed ar yr 31ain o Awst blaenorol, mewn ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol	366	400	1	368	420
EDU/015 (NSI &PAM)	Y canran o ddatganiadau anghenion addysgol arbennig terfynol sy'n cael eu cyflenwi o fewn 26 wythnos: a) Gan gynnwys eithriadau; a b) Heb gynnwys eithriadau	 100 100	 93.33 100	 1 1	 98 100	 98 100
EDU016a (PAM)	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	94.4%	94.2%	1	94%	94%
EDU016b (PAM)	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	91.9%	92.1%	1	92%	92%

Cyf:	Dangosydd Statudol (Cenedlaethol Strategol)	Alldro 08/09	Alldro 09/10	Safle Chwartel 09/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
Gofal Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion						
SCA001 (NSI)	Y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol am bob 1000 o boblogaeth dros 75 oed	3.01	2.11	2	2.50	2.09
SCA/002 (NSI)	Y gyfradd: a) pobl hŷn (dros 65 oed) sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned am bob 1,000 o boblogaeth dros 65 oed ar yr 31ain o Fawrth	71.45	70.62	3	67.14	68
	b) pobl hŷn (dros 65 oed) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal am bob 1,000 o boblogaeth dros 65 oed ar yr 31ain o Fawrth	25.26	23.74	3	23.46	21.23
Cyfuno SCA/003a a SCA/003b (PAM)	Y canran o gwsmeriaid sy'n oedolion sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn ystod y flwyddyn	Dangosydd Newydd	Dangosydd Newydd	Dangosydd Newydd	Dangosydd Newydd	85%
SCA/007 (PAM)	Y canran o gwsmeriaid sy'n oedolion â chynllun gofal ar yr 31ain o Fawrth y dylai eu cynlluniau gofal gael eu hadolygu ac y cawsant eu hadolygu yn ystod y flwyddyn	66.84	71.04	3	70%	85%
SCA/018a (PAM)	Y canran o ofalwyr sy'n gofalu am oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion nhw'u hunain yn ystod y flwyddyn	64.84	58.18	4	100%	100%
SCA019 (PAM)	Y canran o atgyfeiriadau amddiffyn oedolion lle mae'r risg wedi cael ei rheoli	Dangosydd Newydd	Dangosydd Newydd	Dangosydd Newydd	Dangosydd Newydd	90%+

Cyf:	Dangosydd Statudol (Cenedlaethol Strategol)	Alldro 08/09	Alldro 09/10	Safle Chwartel 09/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
Gofal Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant						
SCC/001 a (PAM)	Y canran o leoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd â chynllun gofal yn ei le	82.00	73.68	4	92%	I'w gwblhau yn dilyn her Craffu CYP i'r perfformiad diwedd blwyddyn
SCC/002 (NSI)	Y canran o blant sy'n derbyn gofal ar yr 31ain o Fawrth sydd wedi profi un neu fwy o newidiadau ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, heb fod o ganlyniad i drefniadau pontio, yn y 12 mis at yr 31ain o Fawrth	10.26	8.60	2	12%	I'w gwblhau yn dilyn her Craffu CYP i'r perfformiad diwedd blwyddyn
SCC/004 (PAM)	Y canran o blant sy'n derbyn gofal ar yr 31ain o Fawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	10.69	22.76	4	11%	I'w gwblhau yn dilyn her Craffu CYP i'r perfformiad diwedd blwyddyn
SCC/011 a (PAM)	Y canran o asesiadau cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle roedd tystiolaeth fod y plentyn wedi cael ei weld gan y Gweithiwr Cymdeithasol	73.90	73.88	1	74%	I'w gwblhau yn dilyn her Craffu CYP i'r perfformiad diwedd blwyddyn
Cyfuniad o SCC/016, SCC/021 a SCC034 (PAM)	Y canran o adolygiadau a wnaethpwyd yn unol â'r amserlen statudol	Dangosydd newydd	Dangosydd newydd	Dangosydd newydd	Dangosydd newydd	I'w gwblhau yn dilyn her Craffu CYP i'r perfformiad diwedd blwyddyn

Cyf:	Dangosydd Statudol (Cenedlaethol Strategol)	Alldro 08/09	Alldro 09/10	Safle Chwartel 09/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
SCC/025 (PAM)	Y canran o ymweliadau statudol at blant sy'n derbyn gofal a ddigwyddodd yn unol â'r rheoliadau	90.34	76.71	4	82%	I'w gwblhau yn dilyn her Craffu CYP i'r perfformiad diwedd blwyddyn
SCC/030a (PAM)	Y canran o ofalwyr ifanc oedd yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd eu hasesu	98.36	97.30	2	85%	I'w gwblhau yn dilyn her Craffu CYP i'r perfformiad diwedd blwyddyn
SCC/033a (NSI)	Y canran o bobl ifanc oedd gynt yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw yn 19 oed	100.00	100.00	1	100	I'w gwblhau yn dilyn her Craffu CYP i'r perfformiad diwedd blwyddyn
SCC/033b (NSI)	Y canran o bobl ifanc oedd gynt yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, y mae'n hysbys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng, yn 19 oed	100.00	83.33	4	100	I'w gwblhau yn dilyn her Craffu CYP i'r perfformiad diwedd blwyddyn
SCC/033c (NSI)	Y canran o bobl ifanc oedd gynt yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, y mae'n hysbys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed	69.23	0.00	4	70	I'w gwblhau yn dilyn her Craffu CYP i'r perfformiad diwedd blwyddyn
SCC/037 (NSI)	Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol cyfartalog i blant 16 oed sy'n derbyn gofal, mewn unrhyw sefydliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol	85.78	148.20	2	Cyfartaledd Cymru (151.65 yn 2009/10)	I'w gwblhau yn dilyn her Craffu CYP i'r perfformiad diwedd blwyddyn

Cyf:	Dangosydd Statudol (Cenedlaethol Strategol)	Alldro 08/09	Alldro 09/10	Safle Chwartel 09/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
Tai – Digartrefedd a Chyngor ar Dai						
HHA/013 (NSI & PAM)	Y canran o'r holl aelwydydd a allai fod wedi mynd yn ddigartref yr ataliwyd digartrefedd iddynt am o leiaf 6 mis	11.7	13.07	4	15	15
Tai – Adnewyddu Sector Preifat						
PSR/002 (NSI & PAM)	Y nifer cyfartalog o ddyddiau calendr a gymerwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl	460	386.60	3	350	275
PSR/004 (NSI)	Y canran o anheddau sector preifat oedd wedi bod yn wag ers dros 6 mis ar y 1af o Ebrill a ddychwelwyd i feddiannaeth yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol	5.89	19.23	1	25 25	35
Tai – Effeithlonrwydd Ynni						
EEF/002 (NSI & PAM)	Y canran o newid mewn allyriannau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig	19.28	0.31	3	2.0	5.0
Tai – Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor						
BNF/004 (NSI)	Yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau newydd am Fudd-dal Tai (HB) a Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB) a digwyddiadau newid.	16.74	9.02	2	17.1	15.5

Cyf:	Dangosydd Statudol (Cenedlaethol Strategol)	Alldro 08/09	Alldro 09/10	Safle chwartel 09/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth – Rheoli Gwastraff						
WMT/009 (NSI/PAM)	Y canran o wastraff trefol sy'n cael ei gasglu gan awdurdodau lleol a'i baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a/neu'i ailgylchu, gan gynnwys biowastraff sy'n cael ei wahanu yn y tarddle a'i gompostio neu'i drin yn fiolegol mewn ffordd arall	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Newydd ar gyfer 2010/11	44	50
WMT/004 (NSI/PAM)	Y canran o wastraff trefol sy'n cael ei gasglu gan awdurdodau lleol sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi	50.04	54.17	4	57	50
Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth – Y Gwasanaethau Stryd						
STS005b (PAM)	Y canran o briffyrdd a thir perthnasol a arolygwyd a oedd o safon uchel neu dderbyniol o lendid	84.07	89.26	4	90	Yn disgwyl am wybodaeth
STS/006 (NSI)	Y canran o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith	98.25	99.54	1	95	95
Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth – Trafnidiaeth a Phriffyrdd						
THS/007 (NSI)	Y canran o oedolion dros 60 oed sy'n berchen ar docyn teithio mantais (bws)	83.27	92.61	1	92.5	Yn disgwyl am wybodaeth
Cyfuniad o THS/011a a THS011b (PAM)	Y canran o brif ffyrdd (A) a ffyrdd llai/wedi'u dosbarthu (B) sydd mewn cyflwr cyffredinol wael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Dangosydd newydd ar gyfer 2011-12	Yn disgwyl am wybodaeth

Cyf:	Dangosydd Statudol (Cenedlaethol Strategol)	Alldro 08/09	Alldro 09/10	Safle chwartel 09/10	Targed 2010/11	Targed 2011/12
Gwasanaethau Cynllunio a Rheoleiddio - Cynllunio						
PLA/006 (NSI & PAM)	Y nifer o unedau tai newydd fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn	1.33	16.05	3	25% ar bob safle cymwys	25% ar bob safle cymwys
Diogelu'r Cyhoedd						
PPN/009 (PAM)	Y canran o sefydliadau bwyd sydd yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â safonau hylendid bwyd	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Dangosydd newydd ar gyfer 2011-12	85
Hamdden a Diwylliant – Chwaraeon a Hamdden						
LCS/002 (NSI)	Y nifer o ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn am bob 1,000 o'r boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol	8125	11272.99	1	9285	9700
Hamdden a Diwylliant – Llyfrgelloedd						
LCL/001 (NSI)	Y nifer o ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, am bob 1,000 o'r boblogaeth	4322	3653.82	4	4450	4700

Pennu ein Targedau

Y Broses Cynllunio Gwasanaethau ac Arfarniadau Blynyddol

Bob blwyddyn bydd y Cyngor yn dilyn trefn gynhwysfawr a chadarn o gynllunio gwasanaethau.

Diben cynllunio gwasanaethau yw rhoi cyfle i'r sefydliad bwyso a mesur ei berfformiad ac ymateb, asesu'r heriau tebygol sydd o'n blaen a chynllunio ffordd ymlaen am y flwyddyn i ddod, gyda'r bwriad o gyflawni gwelliant parhaus ar bob cyfle.

Caiff gwasanaethau eu cynllunio'n strategol ar draws y sefydliad a chan wasanaethau unigol. Mae Swyddogion ac Aelodau'n rhan o'r broses. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n asesu'r broses fel rhan o'i Hasesiad Corfforaethol, i sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol (Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009).

Deddfwriaeth Newydd yn 2009

Newidiodd y ddeddfwriaeth sy'n sail i'r gofynion i gyflawni gwelliant parhaus yn 2009 gyda dyfodiad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Mesur yn ailddiffinio'r ddyletswydd sylfaenol ar awdurdodau lleol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a bod yn atebol amdano'. Ddaeth y Mesur i rym dros gyfnod o ddeuddeg mis, ynghyd â'r canllawiau ategol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw sicrhaom fod ein prosesau gwella parhaus yn briodol ac yn ddigon cadarn i fodloni'r gofynion newydd.

Cylch Cynllunio Corfforaethol a Chylch Cynllunio'r Gyllideb

Ar sail gofynion newydd y Mesur, diweddarwyd y Cylch Cynllunio Corfforaethol a Chylch Cynllunio'r Gyllideb. I adlewyrchu'r Mesur newydd, mae'r cylch erbyn hyn yn cynnwys elfennau ychwanegol yn gysylltiedig â phroses Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol, effeithlonrwydd a chydweithio a dadansoddi ac ymgysylltu â chwsmeriaid.

Adborth gan Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiad Gwella Blynyddol

Cyhoeddodd swyddfa Archwilio Cymru 'Adroddiad Gwella Blynyddol' ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ddiweddar, sy'n rhoi ei barn annibynnol hi ar sut mae'r Cyngor yn perfformio. (ARWYDDBOST)

Prif neges yr adroddiad yw bod 'gan y Cyngor ffocws clir ar y Blaenoriaethau a'i fod yn cynyddu'r ystod o wasanaethau y mae'n eu darparu, er nad yw agweddau o'i drefniadau ond yn cefnogi gwella yn rhannol'.

Mae'r cynigion a wneir yn yr adroddiad yn awgrymu y dylai'r Cyngor:

- Ddatblygu ymhellach fesurau canlyniadau priodol i'w amcanion;
- Sicrhau nad yw ffocws ei flaenoriaethau mor fanwl fel mai effaith gyfyngedig a gaiff ar y materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw;
- Datblygu agwedd gyson at bennu targedau mewn meysydd lle mae angen gwella fel y cydnabyddir mai diben targedau yw annog gwelliant ac na fyddant bob amser yn cael eu cyflawni.

Y Broses Cynllunio Gwasanaethau ac Arfarniadau Blynyddol

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi datblygu trefn cynllunio gwasanaethau gadarn sy'n digwydd rhwng Tachwedd a Mawrth bob blwyddyn. Dyma pryd fydd Adrannau'n adolygu a datblygu eu Cynlluniau Gwasanaethau am y flwyddyn ganlynol. Mae Cynlluniau Gwasanaethau Adrannol yn ddolen bwysig yn y gadwyn rhwng y canlyniadau lefel uchel sy'n cael eu mynegi yn y Strategaeth Gymunedol, Blaenoriaethau'r Cyngor a'r Blaenoriaethau Gwella a gweithgareddau gwasanaethau, timau ac unigolion ac yn cael eu hadlewyrchu mewn arfarniadau blynyddol (PRCD).

Er mwyn sicrhau fod adrannau'n ystyried eu gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, beth allent ei wneud yn wahanol ac i sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau rheoleiddiol, byddant yn cynnal hunanasesiad. Yn ystod hyn byddant yn dadansoddi: sut maent yn perfformio; yr ymateb a gawsant gan gwsmeriaid, rheoleiddwyr ac eraill; sut allant gyfrannu at gyflawni Blaenoriaethau'r Cyngor a'r Blaenoriaethau Gwella; a ble y gallant integreiddio cydraddoldeb a chynaliadwyedd yn eu busnes arferol yn well, gan ddefnyddio Offeryn Integreiddio Wrecsam (WIT). Mae hyn yn eu galluogi i asesu sut ac ymhle y gallant wella yn y flwyddyn i ddod ac yn rhoi cyfle i Gyfarwyddwyr gomisiynu gwaith gan adrannau i gyflawni Blaenoriaethau'r Cyngor a'r Blaenoriaethau Gwella. Ar sail hyn, caiff cynlluniau gwasanaethau eu datblygu, sy'n cynnwys mesurau, targedau a chamau gweithredu am y flwyddyn i ddof. Yn dilyn hyn, bydd Aelodau'n adolygu a herio'r mesurau, y targedau a'r camau gweithredu a ddatblygwyd i sicrhau eu bod yn briodol ac yn heriol.

Ymysg y wybodaeth allweddol sy'n ysbrydoli'n trefn cynllunio gwasanaethau mae adborth gan ein rheoleiddwyr, gwybodaeth cwsmeriaid, gwybodaeth perfformiad cymharol, meincnodi a gwybodaeth arferion da. Gellir cael mwy o wybodaeth am y rhain yng Nghynllun y Cyngor, 'Canolbwyntio ar ein Perfformiad'. [ARWYDDBOST]

Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn defnyddio ein system feddalwedd Ffynnon i'n helpu i fonitro a gwerthuso'r cynnydd ar gyflawni ein targedau a'n camau gweithredu bob chwarter yn drwyadl. Bob chwarter, bydd Prif Swyddogion, yr Uwch Dîm Rheoli ac Aelodau yn adolygu a herio'r cynnydd ac yn nodi meysydd lle mae angen cymryd camau pellach i ddod â gwaith yn ôl i'r fan lle dylai fod.

Gwelliannau i'r Broses Cynllunio Gwasanaethau

Bob blwyddyn rydym yn gwerthuso'n proses Cynllunio Gwasanaethau gyda'r bwriad o'i gwella ac adlewyrchu anghenion ein gwahanol Adrannau. Yn 2009 fe'i hadolygwyd i gymryd deddfwriaeth a chanllawiau newydd gan Lywodraeth y Cynulliad i ystyriaeth. Ar gyfer 2011/12, rydym wedi ystyried yr adborth gan Swyddfa Archwilio Cymru a chymryd camau i wella'r Broses Cynllunio Gwasanaethau.

Mae'r newidiadau'n sicrhau dull gweithredu mwy cynnil a chadarn, a'r newid mwyaf yw cyflwyno cyfarfodydd Herio Blaenoriaethau yn gynharach yn y broses. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad, Swyddogion arweiniol, Aelodau Arweiniol a'r Cydgadeirydd a'r Hwylusydd Craffu. Mae'r cyfarfodydd Herio Blaenoriaethau wedi galluogi Aelodau i gymryd rhan yn llawer cynharach yn y broses ac wedi sicrhau herio addas ar gynnwys pob Blaenoriaeth yn ogystal ag unrhyw fesurau a chamau gweithredu a gynigir. O'r mesurau a'r camau gweithredu hyn, dewisodd y Cyfarwyddwyr Strategol a Pherfformiad wedyn y mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau allweddol o dan bob Blaenoriaeth i adrodd yn ôl arnynt yn gorfforaethol bob chwarter.
Mae'r broses ddiwygiedig hon wedi cryfhau'r trefniadau comisiynu i bob Blaenoriaeth gan fod canlyniadau pob cyfarfod herio wedi cael eu hadrodd yn ôl i'r Prif Swyddogion gan y Cyfarwyddwr Strategol a Pherfformiad.

Mae gwelliannau eraill a yrrwyd drwodd fel rhan o broses 2011/12 yn cynnwys:

- Mae mwy o fesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu datblygu ar gyfer Blaenoriaethau Gwella Bwyta'n Iach a Bod yn Fwy Egnïol (HEBMA) a Phobl Hyn ar gyfer 2011/12.

- Mae Adrannau penodol yn cryfhau eu prosesau cynllunio gwasanaethau a'u gallu i nodi mesurau canlyniadau ar gyfer 2011/12 drwy ddefnyddio offeryn RADAR. Mae'r Adrannau sy'n defnyddio'r offeryn ar gyfer 2011/12 yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Oedolion, Tai a Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd.
- Mae ffocws Blaenoriaeth y Cyngor "Gwell Addysg a Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth" wrthi'n cael ei ehangu. (Hon oedd y flaenoriaeth benodol y cyfeiriwyd ati gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru).
- Mabwysiadu egwyddorion Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau wrth ddatblygu'r set newydd o Flaenoriaethau Cyngor a Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2012 ymlaen.

Deall ein Cwsmeriaid

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymgynghori ac ymgysylltu â phobl, sefydliadau a chymunedau lleol ar amrywiaeth o lefelau – o drafod pecyn gofal cymdeithasol wedi'i deilwra gydag unigolyn, i ymgynghori â phob cymuned leol ar ddatblygu cynlluniau a strategaethau mawr.

Mae ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar ddatblygiad a ffocws blaenoriaethau'r cyngor a'r blaenoriaethau gwella. Fel enghreifftiau, mae'r broses gynhwysfawr i ymgysylltu â'r cyhoedd a ddefnyddiwyd i ddatblygu Cyd-gynllun y Cyngor wedi cefnogi datblygu blaenoriaeth y cyngor 'Gwell Addysg a Sgiliau ar Gyfer Cyflogaeth' a'r blaenoriaethau gwella o amgylch 'Bwyta'n Iach a Bod yn Fwy Egnïol' a 'Hybu cyfle cyfartal i Blant a Phobl Ifanc ddod yn ddwyieithog a Hybu Diwylliant Cymru.'

Mae'r ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr wrth ddatblygu Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y blaenoriaethau gwella 'Cynorthwyo Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol' a 'Diogelu ein Plant.' Mae ffocws y flaenoriaeth wella 'Mynediad at Wasanaethau a Gwrando ar y Cyhoedd a'u Cael i Ddylanwadu ar Wasanaethau' wedi cael ei gyfeirio gan arolygon boddhad sy'n parhau o fewn y Ganolfan Mynediad i Gwsmeriaid, ac arolygon i ddylanwadu ar yr adolygiad o ymgynghori corfforaethol.

Blaenoriaethau'r Cyngor o 2012 ymlaen

Mae'r Cyngor yn awr ym mlwyddyn olaf ei Flaenoriaethau Cyngor a'i Flaenoriaethau Gwella tair blynedd a osodwyd i'w cyflawni rhwng 2009 a 2012; felly mae'n dechrau ystyried ar beth fydd y Cyngor yn canolbwyntio o 2012 ymlaen. Rhaid ystyried dymuniadau'r rhanddeiliaid amrywiol, o ddinasyddion, Swyddfa Archwilio Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, partneriaid a staff wrth ddatblygu'r blaenoriaethau hyn, gan ganolbwyntio'n gadarn ar ganlyniadau.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf mae'n debygol y bydd tirweddau'n newid felly gallai fod angen ymgorffori mwy o hyblygrwydd ac ystwythder yn y blaenoriaethau:

- gallai rhai blaenoriaethau barhau;
- gellid canolbwyntio ar rai am flwyddyn arall ac yna'u hymgorffori yn y cyflenwi o ddydd-i-ddydd;
- gallai fod angen canolbwyntio'n hwy ar rai blaenoriaethau (newydd neu bresennol) er mwyn eu cyflawni;
- efallai nad yw rhai'n flaenoriaeth nawr, ond dros amser gallant ddod yn faes blaenoriaeth.

Felly cynigir y canlynol:

- bob blwyddyn, bydd angen adnewyddu'r blaenoriaethau gydag adolygiad llai manwl, fel y gwnaethpwyd mewn blynyddoedd blaenorol;
- fod adolygiad llawn o'r blaenoriaethau, wedi'i gysylltu â'r adolygiad o'r Strategaeth Gymunedol, newidiadau yn y weinyddiaeth wleidyddol a'r amgylchedd allanol, yn digwydd bob hyn a hyn.

Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

Cafodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 Gydsyniad Brenhinol ar 10 Mehefin 2009 a daeth i rym yn ystod 2010, gan ddod yn ddeddfwriaeth sylfaenol ar wella'n barhaus a chynllunio cymunedol i Gymru. Mae gofyn inni ddechrau gweithredu elfennau'r Mesur sy'n ymwneud â chynllunio at y dyfodol (h.y. cynllunio ein gwasanaethau) ar unwaith.

Mae'r Mesur yn ailddiffinio'r ddyletswydd sylfaenol ar awdurdodau lleol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a rhoi cyfrif amdano'. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid lleol gymryd rhan a chydweithredu i gyflawni'r Strategaeth Gymunedol ac ymgysylltu â dinasyddion.

Mae'r Mesur yn wahanol i ddeddfwriaeth flaenorol gan ei fod yn hoelio mwy o sylw ar wneud y cysylltiadau rhwng datblygu a chyflawni'r Strategaeth Gymunedol a blaenoriaethau gwella'r Awdurdod Lleol. Mae hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar gydweithio ac ar gyfranogiad dinasyddion ac ymgynghori â nhw ynglyn â blaenoriaethau gwella. Newidiwyd amseriad gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad hefyd.

Mae'r Mesur wedi gosod y sylfaen i newidiadau i'r Fframwaith Mesur Perfformiad yn y dyfodol, sef y set genedlaethol o ddangosyddion perfformiad sy'n cael eu casglu gan yr holl awdurdodau lleol. Hefyd mae'n nodi newidiadau rheoleiddio sy'n ofynnol mewn perthynas â gwelliant parhaus a'r gofyniad ar i Gyrff Rheoleiddio weithio mewn ffordd fwy cydweithredol.

Datganiad Cyfrifoldeb

Mae'r tair elfen o 'Gynllun y Cyngor' yn ffurfio Cynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2011 i Fawrth 2012. Mae cynhyrchu Cynllun y Cyngor yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol sydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus. Blaenoriaethau'r Cyngor a'r Blaenoriaethau Gwella yw amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2011/12.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Cyngor hwn, am y wybodaeth a'r asesiadau sydd ynddo a'r tybiaethau a'r amcangyfrifon y seiliwyd hwy arnynt.

Ni hefyd sy'n gyfrifol am sefydlu cyfundrefnau rheoli perfformiad a rheoli mewnol priodol y deilliodd yr asesiadau gwybodaeth yn y cynllun hwn ohonynt.

Seiliwyd gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad ar ddata a ryddhawyd gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol. Mae'r Cyngor yn fodlon fod y wybodaeth a'r asesiadau sydd yn y cynllun yn fanwl gywir a chyflawn ym mhob ffordd sylweddol a bod y targedau at wella sydd yn y cynllun yn ymarferol a chyraeddadwy.